

Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yma

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddArchwilio

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yma

Mawrth 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddArchwilio

Cadeirydd y Pwyllgor:



Nick Ramsay AS
Ceidwadwyr Cymreig

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Gareth Bennett AS
Plaid Diddymu Cynulliad Cymru



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Darren Millar AS
Ceidwadwyr Cymreig



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Angela Burns AS
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd Llyr Gruffydd AS yn bresennol yn y sesiynau casglu tystiolaeth (Rhagfyr 2020 – Chwefror 2021).



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Casgliadau	6
Argymhellion	8
1. Cyflwyniad	12
Beth y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei wneud?	12
Beth yw'r ymchwiliad hwn?	14
Pam mae'r ymchwiliad yn bwysig?	14
Pam nawr?	15
Sut wnaethon ni gynnal yr ymchwiliad?	16
2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth	20
Diffinio beth fyddai'n cyfrif i fod yn 'dda'	20
Newid diwylliant: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws cyrff cyhoeddus	22
Elusennau a'r sector preifat.....	24
Y cyhoedd.....	25
Ein barn.....	28
3. Adnoddau	31
A oes gan gyrff cyhoeddus yr adnoddau sydd eu hangen arnynt.....	31
Dyrannu cyllid a chylchoedd cyllideb	34
Yr adnoddau sydd ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	37
Ein barn.....	40
4. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	45
Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	45
Sut mae'r Comisiynydd wedi mynd ati i wneud ei gwaith.....	46

Barn cyrff cyhoeddus am gefnogaeth y Comisiynydd	47
Adnoddau'r Comisiynydd	51
Ein barn	53
5. Llywodraeth Cymru	57
Arwain drwy esiampl: y Llywodraeth fel corff cyhoeddus	57
Hyrwyddo'r Ddeddf	60
Sut mae'r Ddeddf yn rhan o'r broses datblygu polisi	64
Tirwedd gymhleth deddfwriaeth a chyrrff partneriaeth	67
Llythyrau cylch gwaith	74
Cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf ar hyn o bryd ..	75
Ein barn ni	76
6. Rhwystrau eraill	85
Covid-19	85
Ein barn ni: Covid-19	88
Gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru	89
Ein barn ni: gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru	93
Brexit	94
Ein barn ni: Brexit	95
Tensiynau rhwng canoli a lleoleiddio	96
Ein barn ni: tensiynau rhwng canoli a lleoleiddio	98
7. Gair olaf: rôl y Senedd	99
Atodiad A: Termau ac ymadroddion allweddol	102
Atodiad B: Cyfranwyr i'r ymchwiliad hwn	105

Rhagair y Cadeirydd

Wrth imi fyfyrio ar ble rydyn ni nawr, gyda'r cyfnod adfer yn dilyn Covid-19 o fewn cyrraedd, a chymharu hynny â phan ddechreuon ni gynllunio'r ymchwiliad hwn flwyddyn yn ôl, mae'n syndod i mi mor berthnasol y daeth y darn hwn o waith.

Er nad oedd llawer o bobl yn anghytuno â'r hyn yr oedd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ceisio ei gyflawni pan gafodd ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn 2014, roedd sawl un yn ddrwgdybus p'un a oedd hi'n bosibl gweithredu mesurau datblygu cynaliadwy drwy ddeddfwriaeth. Mae sawl un yn dal i fod yn ansicr o hynny hyd heddiw.

Serch hynny, wrth inni baratoi i gyhoeddi'r adroddiad hwn, nid yw drwgdybiaeth yn ddigon da bellach. Mae gennym ni fel Senedd, ac fel gwlad, gyfrifoldeb un ac oll i ail-greu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru er gwell.

Rhaid i ni ddysgu gwersi o'r ffordd yr ydym wedi ymateb i Covid-19 a defnyddio'r cyfle hwn i greu dyfodol gwell i genedlaethau'r dyfodol. Mae gweithredu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fan cychwyn da.

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y rhwystrau, rydym wedi cynnal yr ymchwiliad hwn gydag ethos adeiladol yn ei hanfod: sut y gallwn wneud i'r Ddeddf hon weithio? Yn y pen draw, mae gwneud i'r Ddeddf weithio yn dibynnu ar bob corff cyhoeddus a phawb a drafodir yn yr adroddiad hwn. Rhaid i bob un ohonom wneud yn well.

Serch hynny, yn anorfod, mae rhai yn fwy nag eraill angen ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Ddeddf. Mae ein casgliadau a'n hargymhellion yn canolbwyntio ar waith Llywodraeth Cymru. Gwneir argymhellion hefyd ar gyfer cyrff cyhoeddus yn gyffredinol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ar gyfer y Senedd ei hun. Rydym yn annog y cyrff hynny i ddarllen yr argymhellion hynny yn yr ysbryd adeiladol y'u gwnaed.

Casgliadau

Casgliad 1. Nid yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud digon i feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith defnyddwyr eu gwasanaeth o'r newid i ddatblygu cynaliadwy ar draws gwasanaethau cyhoeddus.Tudalen 29

Casgliad 2. Nid yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud digon i newid diwylliant eu sefydliadau eu hunain i gyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf. O'r herwydd, nid yw'r newid diwylliant sy'n hanfodol i weithredu'r Ddeddf hon yn llwyddiannus wedi digwydd.Tudalen 29

Casgliad 3. Hyd yma, nid yw cyrff cyhoeddus wedi manteisio'n llawn ar yr arbenigedd a'r capasiti o fewn y trydydd sector a'r sector preifat i gefnogi eu gwaith o dan y Ddeddf. Gan hynny, gallai cyrff cyhoeddus weld buddion ychwanegol yn sgil gweithio ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat wrth fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf pan fyddant yn darparu gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus, ac ar ei ran. Tudalen 30

Casgliad 4. Ni ddylai diffyg cyllid ychwanegol i gyrff cyhoeddus ymgorffori'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio fod yn rhwystr i weithredu'r Ddeddf.Tudalen 41

Casgliad 5. Mae cylchoedd cyllido byr a chyhoeddiadau hwyr ynghylch trefniadau cyllido wedi ei gwneud yn anos i gyrff cyhoeddus gydweithio'n effeithiol, cynllunio ar gyfer y dyfodol, a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ganddynt. Tudalen 42

Casgliad 6. Mae'r trefniadau cyllido anghyson ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfyngu ar ba mor effeithiol y gallent fod. Mae ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd ar wahân oresgyn yr un her sylfaenol o ran eu cyllid yn aneffeithlon, nid oes cyfiawnhad clir dros wneud hynny, ac mae wedi arwain at anghysondebau nas dymunir o ran yr hyn a wna Byrddau a'r ffordd y maent yn gweithio. Tudalen 42

Casgliad 7. Mae'r Comisiynydd a'i swyddfa wedi datblygu proffil cyhoeddus cadarnhaol, maent wedi hybu'r Ddeddf yn effeithiol, ac wedi codi ymwybyddiaeth ohoni. Mae ganddynt gryn arbenigedd ym maes datblygu

cynaliadwy, ac mae hyn yn sylfaen i'r gefnogaeth a'r cyngor y maent yn eu darparu i gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru.....Tudalen 53

Casgliad 8. Nid yw cyllideb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi capasiti digonol i'w swyddfa i roi'r lefel o gefnogaeth ymarferol a'r lefel o gefnogaeth sy'n benodol i'r sector i gyrff cyhoeddus y maent wedi galw amdanynt er mwyn gweithredu'r Ddeddf ar waith..... Tudalen 54

Casgliad 9. Roedd Gweinidogion Cymru yn araf yn gweithredu a hyrwyddo'r Ddeddf yn y blynyddoedd yn syth ar ôl iddi gael ei phasio. O'r herwydd, ni weithredodd gwasanaeth sifil Cymru y Ddeddf yn ddigon da yn fewnol ac nid oedd yn ei gwneud yn glir i gyrff cyhoeddus ei bod yn disgwyl iddynt hwy wneud hynny hefyd. Mae hyn wedi bod yn rhwystr sylfaenol i weithredu, ac mae ei effaith yn dal i fod yn amlwg ar draws y sector cyhoeddus heddiw.....Tudalen 77

Casgliad 10. Er gwaethaf dechrau araf, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd diriaethol wrth fabwysiadu'r Ddeddf ers tua 2017. Rydym yn croesawu'r pwyslais y mae'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Parhaol wedi'i roi ar bwysigrwydd gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus ac yn cael ein calonogi gan newidiadau strwythurol a wnaed wrth gyflawni'r Ddeddf a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru.Tudalen 77

Casgliad 11. Mae tirwedd gymhleth a biwrocraidd cyrff partneriaeth a lluo ofynion deddfwriaethol ac adrodd wedi'i gwneud yn fwy anodd i gyrff cyhoeddus fabwysiadu'r Ddeddf hon ac, ar brydiau, wedi peidio â'i chymell yn weithredol.Tudalen 82

Casgliad 12. Heb os, mae'r ansicrwydd ynghylch Brexit wedi'i gwneud yn fwy heriol i gyrff cyhoeddus gynllunio ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw effaith lawn gadael yr UE ar wasanaethau cyhoeddus Cymru yn hysbys o hyd.Tudalen 96

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y gall ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio penderfyniadau cyllido mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023-24.

..... Tudalen 42

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y caiff gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyllido. Dylai'r adolygiad ddechrau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiad nesaf y Senedd, a dylid gweithredu casgliadau'r adolygiad mewn pryd iddynt lywio dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Dylid cynnal yr adolygiad gan lynu at yr egwyddorion a ganlyn:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu cael mynediad at gronfeydd cyfun, wedi'u tynnu o adnoddau eu haelodau statudol, y gallent naill ai eu cadw fel endidau corfforaethol ffurfiol neu drwy drefniadau anffurfiol.⁴⁴
- Dylid penderfynu ar gyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ôl canllawiau clir a chyson wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru.⁴⁴
- Dylai cyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu llywio gan y rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gosod ar eu cyfer.⁴⁴
- Dylai'r cyfraniadau y mae'n ofynnol i bob sefydliad eu gwneud i gyllido Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydnabod yr ymrwymïadau ehangach sydd ganddynt i bartneriaethau eraill (gan gynnwys i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill).Tudalen 44

Argymhelliad 3. Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru sicrhau eu bod yn datblygu perthnasoedd adeiladol. Mae'r anghysondeb yn eu perthnasoedd wedi cyfyngu ar effaith gwaith y Comisiynydd.

..... Tudalen 54

Argymhelliad 4. Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol flaenoriaethu cefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i weithredu'r ddeddfwriaeth hon.....Tudalen 56

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i bennu a chyhoeddi cerrig milltir fel sy'n ofynnol gan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2021.....Tudalen 79

Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i adolygu a chyhoeddi dangosyddion llesiant cenedlaethol diwygiedig heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2021. Dylai'r adolygiad gydnabod yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y pandemig Covid-19 ac ystyried barn cyrff cyhoeddus, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol y sector preifat a'r sector gwirfoddol.....Tudalen 79

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Dylid gweithredu canfyddiadau'r adolygiad hwnnw mewn digon o amser i unrhyw gyrff cyhoeddus sydd newydd eu hychwanegu dderbyn eu dyraniadau cyllid a'u llythyrau cylch gwaith cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Dylai'r adolygiad:

- ystyried yr effaith y byddai cynnwys/hepgor unrhyw gorff cyhoeddus penodol yn ei chael ar weithredu'r Ddeddf ar lefel genedlaethol;
- cydnabod y bydd cynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol yn arwain at ofynion adrodd, monitro ac archwilio ychwanegol ac y bydd hyn yn anochel yn arwain at oblygiadau ariannol/adnoddau;
- nodi'n glir ddisgwyliadau cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf yn ffurfiol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, a sut y bydd y disgwyliadau hynny'n cael eu monitro a'u gorfodi; a
- nodi'n glir y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran cynnwys/eithrio a'r broses neu'r amserlenni ar gyfer cychwyn adolygiadau yn y dyfodol.Tudalen 81

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i lunio llythyrau cylch gwaith mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(Cymru) 2015, ar ôl ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r llythyrau cylch gwaith newydd gael eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf.Tudalen 81

Argymhelliad 9. Ni chaiff Llywodraeth Cymru greu unrhyw bartneriaethau na strwythurau cydweithredol newydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau oni bai ei bod wedi archwilio'n llawn:

- a allai strwythurau partneriaeth presennol, yn hytrach, gyflawni'r swyddogaethau hynny;
- a allai'r strwythur newydd ddisodli'r rhai presennol;
- a all y swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes; ac
- ar ôl ymgynghori â chyrrff cyhoeddus y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, a all y cyrrff cyhoeddus hynny ddangos cefnogaeth i'r strwythurau newydd.Tudalen 83

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau nesaf y Senedd sy'n nodi:

- sut y mae gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, ochr yn ochr â strwythurau partneriaeth mawr eraill, yn rhyngweithio â'i gilydd o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gydag enghreifftiau o arfer da;
- pa hyblygrwydd sydd gan bartneriaethau i wneud penderfyniadau i drefnu eu hunain yn well ac yn fwy effeithlon;
- lle gall partneriaethau a sefydliadau weithredu i symleiddio neu gydgrynhoi'r strwythurau llywodraethu ac adrodd i leihau ailadrodd a dyblygu; a
- barn Llywodraeth Cymru ar dirwedd strwythurau partneriaeth dros y cyfnod adrodd nesaf (2020-25), gan gynnwys unrhyw gynigion i ddiddymu neu gydgrynhoi'r strwythurau hynny.Tudalen 84

Argymhelliad 11. Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sicrhau bod y pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori yn eu cynlluniau ar gyfer adferiad o'r pandemig Covid-19. Rydym yn argymhell nad yw unrhyw gynnydd y maent wedi'i wneud yn eu hymateb uniongyrchol i'r pandemig yn cael ei golli, a'u bod yn symud eu ffocws o'r dydd i ddydd i'r hirdymor ac atal. Tudalen 89

Argymhelliad 12. Wrth inni ddechrau'r ail gyfnod adrodd, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru godi ei ddisgwyliadau o gyrff cyhoeddus a pheidio ag oedi cyn tynnu sylw at fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn annigonol. Tudalen 94

Argymhelliad 13. Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd sicrhau bod strwythur Pwyllgor y Senedd yn hwyluso gwaith craffu effeithiol ar ddeddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a materion eraill sy'n pontio meysydd polisi a phortffolios Gweinidogol. Tudalen 100

Argymhelliad 14. Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd roi ystyriaeth benodol i sut y dylid ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyfeirio'r corff hwnnw o waith at Bwyllgor neu fforwm priodol yn unol â hynny. Tudalen 101

1. Cyflwyniad

Ym mis Mai 2020, am y tro cyntaf, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau statudol yn crynhoi eu gwaith a'u canfyddiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth i ni ddechrau cynllunio ein hymchwiliad, ni allem fod wedi rhagweld y graddau y câi ei siapio gan y cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol ehangach.

Beth y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei wneud?

Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

1. Pan gyflwynwyd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Gorffennaf 2014, crynhodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn:

“[...] the Bill puts sustainable development at the heart of public service government in Wales [...] it enshrines in legislation our shared commitment during fifteen years of devolution to make sustainability central to everything that we and the wider public sector do.”¹

2. Gwna hyn drwy osod dyletswydd ar 44 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ('Gweinidogion Cymru'), i weithredu mewn ffordd sy'n ceisio diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Gelwir hyn yn 'egwyddor datblygu cynaliadwy'.²

¹ Senedd Cymru, '[Cofnod y Trafodion: Cyfarfod Llawn, 08/07/14](#)', tudalen 37, cyrchwyd ar 15 Chwefror 2021

² Legislation.gov.uk, '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: Adran 5](#)', cyrchwyd ar 27 Ionawr 2021

Y nodau llesiant

- 3.** Mae'r Ddeddf yn creu saith nod llesiant sydd, gyda'i gilydd, yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer dyfodol Cymru.³
- 4.** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant trwy osod 'amcanion lles' ar gyfer eu sefydliadau eu hunain, a bodloni'r amcanion hynny.

Strwythurau cydweithredu, cynghori a gorfodi

- 5.** Mae'r Ddeddf yn sefydlu 'Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru', a'i rôl yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy a monitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cyflawni eu hamcanion llesiant.
- 6.** Er mwyn hwyluso cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus, mae'r Ddeddf yn creu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae 19 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, sy'n dod â chyrff cyhoeddus lleol ynghyd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal.
- 7.** Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd â'r dasg o archwilio gwaith cyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan fyddant yn gosod eu hamcanion llesiant ac yn y camau y maent yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.
- 8.** Mae'r Ddeddf yn creu ystod o ddyletswyddau adrodd a monitro ar wahanol gyrff i gefnogi'r Senedd ac eraill i ddwyn y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus i gyfrif. Er enghraifft, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi 'dangosyddion cenedlaethol' a 'cherrig milltir' i fesur y cynnydd, a rhaid i'r 44 corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus adrodd ar y cynnydd a wneir yn erbyn eu hamcanion llesiant.⁴

³ Legislation.gov.uk, '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#): Adran 4', cyrchwyd ar 28 Ionawr 2021

⁴ Llywodraeth Cymru, '[Dangosyddion Llesiant cenedlaethol](#)', Rhagfyr 2020, cyrchwyd ar 25 Chwefror 2021

9. Rhaid i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyhoeddi adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, a rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyhoeddi adroddiad ar ei waith o archwilio cyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf. Rhaid cyhoeddi'r ddau adroddiad unwaith ar gyfer bob cyfnod adrodd (sef bob pum mlynedd fel arfer).

Beth yw'r ymchwiliad hwn?

10. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar y rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a sut y gellir ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.

11. Rydym wedi cymryd golwg eang a chyfannol ar weithrediad y Ddeddf gan nodi themâu sy'n berthnasol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er ein bod, fel rhan o'n gwaith o gasglu tystiolaeth, wedi gofyn i gyrff cyhoeddus am eu gwaith nhw eu hunain yn benodol, nid ydym wedi gwneud sylwadau ar ba mor dda y mae sefydliadau unigol wedi gweithredu'r ddeddfwriaeth. Mae hon yn elfen bwysig o'r ymchwiliad, ond yn un sy'n dod o fewn cylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach na'r Pwyllgor hwn.

12. Rydym hefyd wedi ceisio osgoi trafod beth sy'n gywir ac yn anghywir o ran yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio ei gyflawni gyda'r Ddeddf, a ph'un ai'r Ddeddf fel y'i drafftiodd yw'r ffordd orau o gyflawni hyn. Mae'r rhain hefyd yn feysydd teilwng i graffu arnynt, ond, unwaith eto, nid ydynt o fewn cylch gwaith yr ymchwiliad hwn.⁵

Pam mae'r ymchwiliad yn bwysig?

13. Mae'r Ddeddf yn ddarn uchelgeisiol o ddeddfwriaeth – y cyntaf o'i bath yn y byd. Mae'n cael effaith ar holl wasanaethau cyhoeddus Cymru a thu hwnt. Mae'n bwysig sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu fel y dylai; mae'n newid yn sylfaenol y ffordd y mae penderfyniadau am wasanaethau cyhoeddus yn cael eu gwneud ac, yn y pen draw, sut y cânt eu cyflawni. Mae'n bwysig hefyd archwilio a

⁵ Fodd bynnag, rydym yn ystyried sut y gallai'r Senedd fynd ati i graffu ar y ddeddfwriaeth hon – gan gynnwys bwriad y polisi a sut y cafodd y Ddeddf ei drafftio – ym mhennod 7.

deall yn well y rhwystrau i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus a sut y gellid goresgyn y rhain.

14. Dyma'r tro cyntaf i'r Senedd edrych yn gynhwysfawr ar y gwaith sydd wedi'i wneud o dan y Ddeddf gan y gwahanol gyrff sy'n gyfrifol am ei gweithredu. Mae gwaith craffu gwerthfawr ar y ddeddfwriaeth ei hun a gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i wneud ers i'r Bil gael ei gyflwyno gyntaf (yn enwedig felly gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn y Pedwerydd Cynulliad⁶ a Phwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Pumed Cynulliad⁷). Fodd bynnag, nid yw effeithiolrwydd gweithrediad y Ddeddf wedi bod yn destun craffu seneddol.

15. Credwn hefyd fod y Ddeddf hon yn arbennig o berthnasol yng nghydestun pandemig Covid-19. Mae adferiad yn dilyn argyfwng Covid-19 yn rhoi cyfle i lunwyr polisi asesu sut y gellir ailstrwythuro gwasanaethau cyhoeddus er gwell. Os yw'r Ddeddf am gael ei gweithredu'n llwyddiannus, rhaid iddi fod yn flaenllaw yn y broses honno.

Pam nawr?

16. Y bwriad gwreiddiol oedd inni ddechrau ein gwaith ar y Ddeddf hon i gydfynd â chyhoeddi adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mai 2020 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020'⁸ ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'Felly, beth sy'n wahanol?'.⁹ Yn ôl y gyfraith, rhaid cyhoeddi'r adroddiadau heb fod yn hwyrach na blwyddyn cyn pob etholiad cyffredinol i'r Senedd. Yr adroddiadau hyn oedd y cyntaf o'u bath i gael eu cyhoeddi ers pasio'r Ddeddf yn 2015.

17. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i'r Senedd graffu ar sut y mae'r Ddeddf wedi'i gweithredu. Gyda'i gilydd, maent yn crynhoi'r cynnydd

⁶ Senedd Cymru. 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015', cyrchwyd ar 13 Ionawr 2021

⁷ Senedd Cymru. 'Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol', cyrchwyd ar 13 Ionawr 2021

⁸ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020', Mai 2020, cyrchwyd ar 12 Ionawr 2021

⁹ Archwilio Cymru. 'Felly, beth sy'n wahanol?', Mai 2020, cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021

y mae cyrff cyhoeddus wedi'i wneud a'r hyn y dylen nhw, Llywodraeth Cymru ac eraill ei wneud yn y dyfodol i weithredu'r Ddeddf yn fwy llwyddiannus.

18. Yng ngwanwyn 2020, trafododd Cadeiryddion gwahanol bwyllgorau'r Senedd sut yr eir ati i graffu ar y Ddeddf a'r ddau adroddiad. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn arwain yr ymchwiliad, gan wahodd Cadeiryddion pwyllgorau eraill y Senedd i gyfrannu at yr ymchwiliad drwy fynychu cyfarfodydd Pwyllgor.

19. Fodd bynnag, ym mis Mai 2020 roedd cyrff cyhoeddus yn ymrafael â thon gyntaf pandemig Covid-19. Penderfynwyd gohirio ein hymchwiliad nes tymor yr hydref 2020. Trawodd ail a thrydedd don y pandemig yng Nghymru unwaith yr oedd yr ymchwiliad a aildefnwyd ar y gweill. Daeth yn amlwg, pe byddem am barhau â'n gwaith, y byddai'n rhaid i ni wneud hynny yng nghyd-destun Covid-19.

20. Yn ôl y dystiolaeth a gawsom yn hydref 2020, roedd gan gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill stori bwysig i'w hadrodd am y Ddeddf hon. Er gwaethaf y pwysau enfawr yr oeddent yn gweithio oddi tano, roeddent am rannu'r stori honno gyda ni. Cawsom ein synnu gan eu cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth uchelgeisiol hon, a'u huchelgais i wneud iddi weithio i bobl Cymru. Os rhywbeth, roedd yr uchelgais hon yn ymddangos yn gryfach o ystyried y potensial i arloesi wrth inni adfer yn dilyn Covid-19. Gan hynny, penderfynom barhau â'n hymchwiliad yng ngwanwyn 2021.

Sut wnaethon ni gynnal yr ymchwiliad?

21. Gwnaethom gasglu tystiolaeth gan amryw o wahanol bobl a sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Fe wnaethom ddewis casglu ein tystiolaeth gan ddefnyddio chwe phrif thema:

- 1.** Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf
- 2.** Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus i weithredu'r Ddeddf, a pha mor effeithiol y defnyddiwyd yr adnoddau hynny
- 3.** Y gefnogaeth a ddarperir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- 4.** Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru

- 5.** Rhwystrau posibl eraill (e.e. Brexit, Covid-19, ac ati)
- 6.** Sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol

22. Wrth i ni adolygu a thrafod y dystiolaeth a gasglwyd, daeth yn amlwg bod y thema derfynol – sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol – yn arwain ymlaen yn naturiol ar ôl ystyried y rhwystrau.

23. Gan hynny, rydym wedi strwythuro'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y pum thema gyntaf, gan gynnwys sylwadau am bum mlynedd gyntaf y Ddeddf hon a'r dyfodol ym mhob pennod. Ym mhennod olaf yr adroddiad, rydym yn myfyrio rhywfaint ar rôl y Senedd ei hun mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth hon.

Llinell amser yr ymchwiliad:

Mae'r llinell amser isod yn dangos sut yr aethom ati i gynnal ein hymchwiliad.



Mawrth 2020

Cwmpasu

Cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd yn cytuno mai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fydd yn arwain yr ymchwiliad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda chyfranogiad Cadeiryddion Pwyllgorau eraill..



Hydref 2020

Lansio'r ymchwiliad

Cynrychiolwyr o oddeutu 40 o gyrff cyhoeddus, elusennau a rhanddeiliaid eraill yn ymuno â'n digwyddiad bwrdd crwn rhithwir i rhanddeiliaid.

Ymgynghoriad

Ysgrifennu at bob un o'r 44 corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf a rhanddeiliaid allweddol eraill i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig. Cafwyd 61 o ymatebion.



Mai 2020

Cyhoeddi adroddiadau statudol

Y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi eu hadroddiadau statudol. Briff technegol yn dod i law gan y ddwy swyddfa.

COVID-19

Penderfynu gohirio dechrau ein hymchwiliad tan yr hydref 2020 i ganolbwyntio ar COVID-19 dros y gwanwyn a'r haf.



Tachwedd 2020

Ymgysylltu â phobl ifanc

Ysgrifennu at dros 70 o sefydliadau addysgol i ofyn am farn pobl ifanc am yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei olygu iddyn nhw. Dau ymateb yn dod i law, yn cynrychioli barn 14 o bobl.



Ionawr 2021

Arolwg wedi'i dargedu

Anfon holiadur byr i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru ei gwblhau i'n helpu i ddeall i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â'u staff ynghylch y Ddeddf.



Mawrth 2021

Ein hadroddiad

Cyhoeddi ein hadroddiad terfynol. Cynnal dadl ar yr adroddiad yn yn Siambr y Senedd.



Rhagfyr 2020

Sesiynau tystiolaeth

Dechrau casglu tystiolaeth lafar gan randdeiliaid a chyrrff cyhoeddus trwy gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.



Chwefror 2021

Craffu

Cynnal ein sesiwn graffu olaf gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru.

2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Yn yr adran hon, rydym yn ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn gwybod yr hyn y dylent fod yn anelu ato ac a yw'r wybodaeth honno i'w gweld ar draws yr holl staff. Rydym yn trafod faint y mae angen i randdeiliaid eraill ei wybod am y Ddeddf, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n ddarostyngedig iddi eu hunain. Yn olaf, rydym yn ystyried faint o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sydd ei hangen ar y cyhoedd i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus.

Diffinio beth fyddai'n cyfrif i fod yn 'dda'

24. Mynegwyd pryderon pan gyflwynwyd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gyntaf ynghylch a oedd gan y ddeddfwriaeth arfaethedig yr eglurder yr oedd ei angen i ysgogi newid ar lawr gwlad.¹⁰ Gwnaethom ofyn i gyrff cyhoeddus a oedd yn amlwg iddynt sut beth, yn ymarferol, oedd gweithredu'r Ddeddf 'yn dda'.

25. Ar y cyfan, roedd hyn yn glir iddynt. Dywedodd un o swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

“[...] at an executive or strategic level, there is a clear sense of what 'good' looks like [...] that then gets translated across the organisation into the divisions”

¹⁰ Gweler cyfraniad Christine Chapman AC ar 8 Gorffennaf 2014, er enghraifft (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, '[Cofnod y Trafodion: Cyfarfod Llawn, 08/07/2014](#)', tudalen 46, cyrchwyd ar 3 Chwefror 2021.), neu gyfraniad Llyr Gruffydd AC i'r ddadl Cyfnod 4 ar 17 Mawrth 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, '[Cofnod y Trafodion: Cyfarfod Llawn, 17/03/2015](#)', tudalen 51, cyrchwyd ar 3 Chwefror 2021).

26. Ychwanegodd y swyddog fod rhai o'r adrannau yn fwy aeddfed o ran deall y weledigaeth honno nag eraill.¹¹ Roedd hon yn thema gyson: mae'n ymddangos bod gan lefelau uwch o fewn cyrff cyhoeddus syniad da o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud, hyd yn oed os oedd ei ddiffinio mewn termau diriaethol yn anos.¹²

27. Awgrymodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru:

“[some members of Public Services Boards] found the concepts and language within the Act confusing, aspirational and vague and most believed that the space within the Act for local interpretation was a challenge and often caused confusion. This was especially true of central concepts such as sustainable development and well-being [...]”¹³

28. Gofynnem i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru am y pryderon hyn. Cydnabu fod yr adroddiadau gan y Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dangos bod dulliau gwahanol iawn o hyd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.¹⁴ Meddai:

“One of the ways that we've tried to approach this issue is by working very closely with the Commissioner and also the third sector to agree on a definition of 'prevention' to help understand the application of that way of working”.

29. Fodd bynnag, dadleuodd fod y rhwymedigaethau a'r ymrwymïadau a wneir yn y ddeddfwriaeth ei hun yn glir iawn.¹⁵

¹¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 11/01/21](#)', paragraff 32

¹² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 195

¹³ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, '[Submission to the Public Accounts Committee's Enquiry on the Barriers to Implementation of the Well-being of Future Generations \(Wales\) Act 2015](#)', Ionawr 2021, cyrchwyd ar 12 Chwefror 2021

¹⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 150

¹⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 150

Newid diwylliant: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws cyrff cyhoeddus

30. Clywsom nad yw uwch-dimau arweinyddiaeth yn gwybod yn iawn beth fyddai'n cyfrif i fod yn 'dda' os nad yw eu staff ar bob lefel o gyrff cyhoeddus yn rhannu'r un ddealltwriaeth. Mae hyn yn ymwneud â diwylliant sefydliadol, y soniwyd dro ar ôl tro ei fod yn rhwystr mawr i weithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol.

31. Dywedodd Sustrans Cymru wrthym:

"[...] public bodies really need to think about culture change at all levels as well, so that the existing staff are really thinking about how the future generations Act impacts their everyday working activities, and it's ingrained within the way everyone works, rather than necessarily thinking that it's vested in some individual who is the officer that looks after that."¹⁶

32. Roedd eraill yn cytuno, gan awgrymu mai diben y ddeddfwriaeth yw 'meddwl yn strategol am sut olwg fydd ar Gymru mewn 10, 15 neu 20 mlynedd, ac mai dyma'r pwynt o ran newid diwylliant'.¹⁷ I lawer o'n tystion, sicrhau newid diwylliant oedd un o'r prif rwystrau i weithredu'r Ddeddf. Dywedwyd wrthym yn aml y byddai'r rhwystr hwn yn cymryd peth amser i'w oresgyn.¹⁸

33. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn cydnabod bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf ar draws yr holl staff yn hanfodol os yw'r gwasanaethau cyhoeddus y maent yn eu darparu am adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Pwysleisiodd Chwaraeon Cymru fod pob person mewn corff cyhoeddus yr un mor bwysig â'r Prif Weithredwr o ran cyflawni bwriad y Ddeddf. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y gellid datblygu a gwella'r maes gwaith hwn o fewn y sefydliad.¹⁹

¹⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 179

¹⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 11/01/21](#)', paragraff 71

¹⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 20


¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [FGA53 Chwaraeon Cymru](#)

34. Roedd rhai cyrff cyhoeddus wedi cyflwyno prosesau i wella dealltwriaeth, megis cynnwys y Ddeddf mewn asesiadau effaith ar gyfer polisiau neu fentrau newydd.²⁰ Dywedodd eraill wrthym fod gwaith maes Archwilio Cymru a ganolbwyntiai ar y pum ffordd o weithio wedi bod yn ddefnyddiol wrth atgyfnerthu'r Ddeddf ar draws staff y sector cyhoeddus.²¹

35. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn cyfeirio at anghysondebau sylweddol o ran sut, ac i ba raddau, yr oedd staff ar draws y sector cyhoeddus wedi bod yn gweithredu'r Ddeddf, ac i ba raddau yr oedd y Ddeddf yn llywio eu gwaith.

36. Gwnaethom lansio arolwg byr ar-lein i gael syniad o ba mor dda y mae'r Ddeddf yn cael ei deall ymhlith staff y 44 corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.


Ffigur 1. Gofynnwyd i gyflogeion y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ymateb i'r cwestiwn a ganlyn: "Ydych chi wedi clywed am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?" Ymatebodd 94 o unigolion.



²⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 25/01/21', paragraff 26

²¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 25/01/21', paragraff 186

Ffigur 2. Gofynnwyd i gyflogwyr y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ymateb i'r cwestiwn a ganlyn: "I ba raddau y mae eich cyflogwr wedi cysylltu â chi i drafod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch gwaith?" Ymatebodd 88 o unigolion.



37. Mae'r canlyniadau'n dangos lefel gymharol dda o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn gyffredinol (roedd 76% o'r 94 o ymatebwyr wedi clywed am y Ddeddf), ond darlun cymysg a gafwyd o ba mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn trafod yn rhagweithiol â staff ynglŷn â sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar eu gwaith. Nododd 43.2% o'r 88 o ymatebwyr fod eu cyflogwr wedi ymgysylltu â hwy "llawer iawn" neu "lawer". Nododd 27.3% nad oedd eu cyflogwr wedi ymgysylltu â hwy o gwbl.

Elusennau a'r sector preifat

38. Clywsom fod y sector gwirfoddol a'r sector preifat yn cyflawni rolau hollbwysig wrth gefnogi eraill i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a darparu gwasanaethau eu hunain. Cawsom ein synnu gan mor gryf yr oedd y teimladau a lefel yr ymgysylltiad yn y trydydd sefydliad sector a'r sector preifat a gyfrannodd at ein hymchwiliad.²²

39. Eglurodd Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth WWF Cymru wrthym pa rôl yr ystyriai hi oedd gan y trydydd sector wrth weithredu'r Ddeddf:

"[...] highlighting not just our role in public engagement but also as expert advisers on the implementation of the Act, on what sustainability means, on what radical transformation, system change,

²² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 11/01/21', paragraff 7

can look like— both the policies and the design and the evaluation of that is a critical role for the third sector”.²³

40. Fodd bynnag, yn wahanol i gyrff cyhoeddus, nid yw sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat sy'n cynnig gwasanaethau cyhoeddus neu'n cefnogi gwasanaethau o'r fath yn ddarostyngedig i'r Ddeddf. Nid oes gofyniad statudol iddynt fabwysiadu egwyddorion y ddeddfwriaeth, hyd yn oed yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno. I rai cyrff cyhoeddus, mae cael cefnogaeth y trydydd sector a'r sector preifat wedi bod yn heriol. Clywsom fod hyn yn gwella, a bod cydweithio â'r sector preifat a'r sector gwirfoddol yn gallu gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Cymru sy'n integredig, yn gydweithredol, yn wydn ac yn ffyniannus.²⁴

Y cyhoedd

41. Gofynnwyd i randdeiliaid a thystion i ba raddau y mae'r cyhoedd yn ymwybodol o'r Ddeddf a'r hyn y mae'n ei olygu i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi dadlau y dylai'r ddeddfwriaeth hon yn fwy nag unrhyw ddeddfwriaeth arall esgor ar sgwrs genedlaethol am sut y dylid darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r sgwrs hon yn dibynnu ar y cyrff cyhoeddus eu hunain yn ymgysylltu â defnyddwyr eu gwasanaethau, ochr yn ochr â gwaith hyrwyddo mwy cyffredinol gan sefydliadau allweddol eraill, sef Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

42. Dywedwyd wrthym yn aml mai lefel isel o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf oedd gan y cyhoedd. Yn yr achosion lle mae pobl wedi clywed am y Ddeddf, maent fel arfer yn ei hystyried yn rhywbeth nad yw'n annatod i'w bywydau bob dydd. Dywedodd cynrychiolydd WWF Cymru wrthym:

“[...] there have been no real surveys to get a sense through an evidence base, really, to anticipate how much public awareness there is, but I think, anecdotally, if you ask any of your family or friends what


²³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 14/12/20', paragraff 151

²⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 25/01/21', paragraff 338

the well-being Act is, I think everyone would find a blank look on faces.”²⁵

43. Roedd canlyniadau ein harolwg o'r rhai a fynychodd ein digwyddiad i randdeiliaid ar 12 Hydref 2020 yn dangos lefelau isel o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd (yn ogystal â lefelau uchel o ymwybyddiaeth ar draws y cyrff cyhoeddus eu hunain).

Ffigur 3. Defnyddiwyd arolwg rhithwir i ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol yn ein digwyddiad rhanddeiliaid p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn:



44. Gofynnwyd hefyd i'r bobl ifanc a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu p'un a oeddent wedi clywed am y Ddeddf a Chomisiynydd

²⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 14/12/20', paragraff 149

Cenedlaethau'r Dyfodol. Dim ond 2 o'r 14 myfyriwr oedd wedi clywed am y Ddeddf a'r Comisiynydd. Mae'n bwysig nodi bod y myfyrwyr nid yn unig yn debygol o fod yn grŵp o'r cyhoedd sy'n arbennig o wybodus a pharod i ymgysylltu, ond eu bod yn cynrychioli grŵp oedran a ddylai fod yn rhai o'r bobl sy'n elwa fwyaf yn sgil y ddeddfwriaeth hon.²⁶

45. Nid oeddem yn synnu clywed bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ddeddfwriaeth hon yn isel yn ôl pob tebyg. Gall y broses ddeddfwriaethol fod yn gymhleth, ac mae ymgysylltu'n effeithiol ac yn ystyrlon â'r cyhoedd yn her sylweddol i unrhyw lywodraeth neu ddeddfwrfa. Roeddem yn awyddus i weld a yw'r Ddeddf hon yn arbennig o anodd i'w deall, o'i chymharu â darnau eraill o ddeddfwriaeth.

46. Clywsom:

"[...] the multifaceted nature of the Act brings added complexity and therefore makes it difficult to convey a single clear message about the purpose of the Act and what it means for individuals, communities, organisations and their staff."²⁷

47. Er hynny, nid yw'r ffaith bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth wael o'r ddeddfwriaeth o reidrwydd yn rhwystr i'w gweithredu'n llwyddiannus. Gwnaethom ofyn i'n tystion a oedd wir angen i'r cyhoedd wybod am y Ddeddf.

48. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym ei fod yn 'rhwystr strategol i weithredu'r Ddeddf'. Dywedodd fod yn rhaid i'r drafodaeth ynghylch llunio polisiau 'gael ei chynnal ar lefel genedlaethol yng nghyd-destun y Ddeddf, a hynny sawl gwaith, gan mai'r nod yw newid natur y ddadl wleidyddol'.²⁸

49. Cytunodd un o swyddogion Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre:

"The more informed we are as a nation, the better the discussion and the more challenging it is. So, I think that's really, really important. I

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: [Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn Crynodeb o'r ymgysylltiad â phobl ifanc](#)

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA4.0 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)

²⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 55

think the other thing, in realistic terms, as part of Wales, change happens in groups of five to eight, it doesn't happen by didactic, top-down policy. That's where we get real change: what does it mean for me in my locality, in my community, and how can it make a little bit of a difference?"²⁹

50. Roedd llawer o'r tystion yn teimlo nad oedd angen i'r cyhoedd wybod am y ddeddfwriaeth yn ei holl fanylder.³⁰ Fodd bynnag, roedd consensws y dylai'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r ffaith bod y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn newid i ddilyn yr egwyddorion yn y Ddeddf.³¹

51. Gan hynny, roeddem yn tybio y byddai cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i roi gwybod i ddefnyddwyr eu gwasanaeth am y newid hwnnw. Pan wnaethom ofyn i'n tystion am hyn, roeddem yn siomedig o glywed llawer o dystion yn cydnabod bod angen iddynt wneud mwy.

Ein barn

52. Rydym yn gwerthfawrogi bod codi ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth a newid diwylliant yn cymryd amser. Fodd bynnag, mae pum mlynedd a mwy ers pasio'r Ddeddf. Mae cyrff cyhoeddus wedi cael digon o gyfle i gymryd y cam cyntaf hanfodol hwn i ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy mewn gwasanaethau cyhoeddus.

53. Er nad oes angen i'r cyhoedd wybod am fanylion mân y Ddeddf, **mae** angen i'r cyhoedd ddeall y bu newid sylfaenol tuag at egwyddor o ddatblygu cynaliadwy wrth lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Heb y ddealltwriaeth hon, dydyn ni ddim yn gweld sut y gall y cyhoedd gyfrannu at y drafodaeth ynghylch sut y gellir rhedeg gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cynaliadwy, na dwyn i gyfrif y rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus am y ffordd y maent yn gweithredu'r Ddeddf. Er y

²⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 11/01/21', paragraff 39

³⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 14/12/20', Paragraff 154

³¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 14/12/20', Paragraff 55

gwelir arferion da yma ac acw, nid yw pob corff cyhoeddus yn trosglwyddo manylion y Ddeddf i neges glir a pherthnasol y gellir ei chyfleu i bobl Cymru.

54. Os nad yw defnyddwyr gwasanaethau cyrff cyhoeddus yn ymwybodol o'r egwyddorion wrth graidd y Ddeddf, mae hyn yn awgrymu i ni fod gweithrediad y Ddeddf hyd yma wedi bod o dop sefydliadau i lawr; mae'n digwydd i bobl, nid gyda phobl. Rydym yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol bod y diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn arwydd nad yw'r sgwrs genedlaethol wedi newid. Os nad yw'r sgwrs genedlaethol wedi newid, nid yw'r ddeddfwriaeth yn gweithio fel y dylai.

Casgliad 1. Nid yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud digon i feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith defnyddwyr eu gwasanaeth o'r newid i ddatblygu cynaliadwy ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

55. Rydym wedi dod i gasgliadau tebyg am y newid diwylliant o fewn cyrff cyhoeddus eu hunain. Nid oes gennym amheuaeth nad yw uwch-dimau arwain cyrff cyhoeddus ledled Cymru yn deall y ddeddfwriaeth yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r ddealltwriaeth hon i'w gweld ymhlith pob aelod o staff cyrff cyhoeddus. Ni all sefydliadau honni eu bod wedi ennyn newid diwylliant os nad oes gan y rhan fwyaf o'u staff unrhyw ymwybyddiaeth bod rhaglen o newid diwylliant hyd yn oed ar y gweill. Down i'r casgliad fod hyn hefyd yn rhwystr i weithredu'r Ddeddf.

Casgliad 2. Nid yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud digon i newid diwylliant eu sefydliadau eu hunain i gyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf. O'r herwydd, nid yw'r newid diwylliant sy'n hanfodol i weithredu'r Ddeddf hon yn llwyddiannus wedi digwydd.

56. Roedd yn galonddid inni weld arbenigedd, ymgysylltiad ac ymrwymiad y cynrychiolwyr yn y trydydd sector a'r sector preifat a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn.

57. Wnaethon ni ddim cael digon o dystiolaeth gan elusennau a chwmnïau preifat i wybod a yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y sefydliadau a gyfrannodd at ein hymchwiliad yn gynrychioliadol o'r sectorau yn gyffredinol. Rydyn ni'n cymryd mai dyna'r achos i rai, a bod mwy gan eraill i'w wneud. Fodd bynnag, gan nad yw'r cyrff hynny'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, credwn yn y pen draw mai

cyfrifoldeb y cyrff cyhoeddus sy'n gweithio ochr yn ochr â hwy yw sicrhau bod eu gwaith yn cadw at egwyddorion y Ddeddf.

58. Rydym hefyd yn cydnabod gwerth y trydydd sector a'r byd academiaidd o ran darparu arbenigedd, cyngor a chymorth. Gallai'r sector cyhoeddus fod yn gwneud mwy o ddefnydd o'r adnodd hwn.

Casgliad 3. Hyd yma, nid yw cyrff cyhoeddus wedi manteisio'n llawn ar yr arbenigedd a'r capasiti o fewn y trydydd sector a'r sector preifat i gefnogi eu gwaith o dan y Ddeddf. Gan hynny, gallai cyrff cyhoeddus weld buddion ychwanegol yn sgil gweithio ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat wrth fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf pan fyddant yn darparu gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus, ac ar ei ran.

3. Adnoddau


Byddai'n anodd ymchwilio i sut y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu unrhyw ddeddfwriaeth heb gyffwrdd ar faterion adnoddau. Gofynnwyd a oedd yn rhesymol disgwyl mwy o arian yn y cyd-destun presennol, ac a oedd angen mwy o adnoddau ar gyrff cyhoeddus, pe bai arian ar gael, i weithredu'r Ddeddf, neu a oes angen iddynt ddefnyddio adnoddau presennol yn wahanol.

A oes gan gyrff cyhoeddus yr adnoddau sydd eu hangen arnynt

59. Diben yr ymchwiliad hwn oedd nodi'r rhwystrau ar draws y sector cyhoeddus i weithredu'r Ddeddf hon. Gwnaethom ganolbwyntio ar faterion sy'n gyffredin i'r 44 corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, yn hytrach na chraffu ar gyrff cyhoeddus unigol a'u harweinyddiaeth. Roeddem yn awyddus i gael gwybod a oes gan gyrff cyhoeddus yn gyffredinol yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (mater sy'n berthnasol i bob corff cyhoeddus), yn hytrach na pha mor llwyddiannus yr oedd arweinyddiaeth pob corff wedi defnyddio'r adnoddau hynny (mater sy'n amrywio'n sylweddol o un corff cyhoeddus i'r llall).³²

³² Y sawl sy'n bennaf cyfrifol am graffu ar waith cyrff cyhoeddus unigol yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y nodir yn Rhan 3 o'r Ddeddf, ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan adran 15. Gweler: Legislation.gov.uk, '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)', cyrchwyd ar 2 Mawrth 2021.

Ffigur 4. Gwnaethom ddefnyddio arolwg rhithwir i ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol yn ein digwyddiad rhanddeiliaid: "Pa un o'r canlynol sydd fwyaf arwyddocaol wrth weithredu'r Ddeddf?" Adnoddau ar gyfer cyrff cyhoeddus ddaeth ar frig y rhestr.



60. Nid yw'r Ddeddf ei hun yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni unrhyw swyddogaethau ychwanegol. Mae'n eu hannog i feddwl yn wahanol am y gwasanaethau cyhoeddus y maent eisoes yn eu darparu a'r ffyrdd y maent yn gweithio.

61. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn gosod gofynion ar gyrff cyhoeddus i gyflwyno adroddiadau. Rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i sicrhau eu bod yn cyfrannu gymaint â phosibl at y nodau llesiant cenedlaethol. Rhaid i bob corff cyhoeddus hefyd gyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'i amcanion i roi mwy o fanylion ynghylch pam y mae wedi pennu'r amcanion penodol hynny, y camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion, sut y bydd yn cynnwys eraill wrth wneud hynny, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Yn olaf, ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, rhaid i bob corff cyhoeddus adrodd ar y cynnydd y maent wedi'i wneud yn erbyn ei amcanion.

62. Nid ydym yn tanbrisió'r gwaith y mae angen i gyrff cyhoeddus ei wneud i ddatblygu eu hamcanion. Nid oedd yn glir inni chwaith a oes gan gyrff cyhoeddus arbenigedd o fewn eu sefydliad i gefnogi'r corff hwn o waith. Pan ofynnwyd y cwestiynau hyn i'r cyrff cyhoeddus eu hunain, roedd llawer o'r ymatebion – yn enwedig rhai awdurdodau lleol – yn ategu sylwadau Cyngor Sir y Fflint:

“The Act encourages public bodies to behave in an “ideal world” – with multi year sustainable budget settlements, capacity for research and

application, lack of bureaucracy and perfect partnership arrangements. This is not reality and it takes effort to either develop and/or campaign/lobby for these ideals.”³³

63. Clywsom y dylid ystyried y gofynion y mae'r Ddeddf yn eu gosod ar gyrff cyhoeddus yng nghyd-destun mesurau cyni ar draws y sector cyhoeddus. Nid oes gan lawer o gyrff y capasiti oedd ganddynt gynt. Dadleuodd llawer ohonynt 'fod arnynt angen adnoddau i newid diwylliant'.³⁴

64. Yn draddodiadol, mae rhai gyrff cyhoeddus wedi dibynnu ar asedau ffisegol – fel adeiladau – i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Clywsom y gallai mabwysiadu egwyddorion y Ddeddf gynnwys trefniadau i ddarparu arian cyfalaf untro i foderneiddio seilwaith.³⁵ Fodd bynnag, mewn meysydd eraill, gall mabwysiadu'r Ddeddf gael yr effaith gyferbyniol – gan herio rhagdybiaethau ynghylch sut y dylid defnyddio cyllid. Rhoddodd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol enghraifft i ni:

“Dwi wedi dod i'r penderfyniad rŵan nad ydyn ni'n codi adeilad ysblennydd werth £3 miliwn yn Aberystwyth, ond yn hytrach rydyn ni'n mynd i fuddsoddi'r arian yna mewn ymgysylltu cyhoeddus, sef mynd â'r archif yma allan at y bobl [...] mae'r llyfrgell genedlaethol wedi dod i'r casgliad bod yn rhaid edrych o'r newydd ar bob dim rydyn ni'n ei gyflawni yng nghyd-destun COVID-19 a'r hinsawdd economaidd sydd ohoni hi, a gofyn i ni ein hunain, yn feirniadol iawn, iawn, iawn a ydyn ni'n medru gwneud hyn yn wahanol, ydyn ni'n medru ei wneud o'n well, ac a ydyn ni'n medru ei wneud o fel ei fod o'n dod â mwy o fudd i bobl Cymru”³⁶

65. Awgrymodd eraill fod yr her o ran adnoddau yn un mwy cymhleth. Dywedodd un o swyddogion Archwilio Cymru:

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [FGA50 Cyngor Sir y Fflint](#)

³⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 100

³⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 13

³⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 66

“[...] there’s a danger [...] that with resources comes grant dependency and, at some point, public bodies have to take the brave step of funding themselves and stepping back from one model of provision and moving on with another within their existing resources.”³⁷

66. Awgrymodd un o swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan mai un ffordd o oresgyn materion o ran adnoddau oedd ‘meddwl am y cyfrifoldebau sydd gennym gyda’n gilydd fel sefydliad sector cyhoeddus na allwn ond eu cyflawni drwy gydweithio â’n partneriaid eraill’.³⁸ Cytunodd cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, gan ychwanegu:

“[...] it’s that micro approach to pooling and collaboration that could be one of the tools we use, given that I don’t think we have the ability to influence the macro environment around funding allocation from UK level”.³⁹

67. Roedd rhai tystion yn cytuno bod cyfyngiadau sylweddol o ran adnoddau, ond, fel y dywedodd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym, ‘nid yw achwyn am gyllid am helpu neb’. Aeth ymlaen i ddweud ‘rydym mewn sefyllfa anodd iawn ac mae’n rhaid i ni wneud y gorau o’r hyn sydd gennym’.⁴⁰

Dyrannu cyllid a chylchoedd cyllideb

68. Roedd y dystiolaeth y gwnaethom ei chasglu yn y digwyddiad rhanddeiliaid ym mis Hydref 2020 a’n hymgyngghoriad yn cyfeirio at ddatgysylltiad rhwng sut y dyfernir cyllid i gyrff cyhoeddus ac egwyddorion y Ddeddf. Gofynnwyd i’n tystion a yw’r broses o ddyfarnu cyllid yn rhwystr i weithredu’r Ddeddf.

69. Yn ôl Archwilydd Cyffredinol Cymru :

- “the short-term nature of some funding flows, which hamper [public bodies’] ability to plan effectively for the longer term;

³⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)’, paragraff 101

³⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 11/01/21](#)’, paragraff 77

³⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 11/01/21](#)’, paragraff 84

⁴⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)’, paragraff 225

- a lack of flexibility in how some parts of grant funding can be spent; and
- the fact that public bodies are only made aware of the availability of funding very late in the day, or late in the financial year”.⁴¹

70. Nododd y rhan fwyaf o'r tystion fod o leiaf un o'r pwyntiau hyn yn rhwystr allweddol i'w sefydliad.

Cylchoedd ariannu a hyblygrwydd

71. Mae cyfran sylweddol o'r arian y mae gyrff cyhoeddus yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn cael ei bennu a'i ddyfarnu'n flynyddol.⁴² Gall Llywodraeth Cymru nodi meysydd eang ar gyfer sut y dylai'r arian hwn gael ei ddefnyddio gan y gyrff cyhoeddus neu nodi blaenoriaethau strategol ar gyfer y sefydliad. Er hynny, yn gyffredinol, mae gan gyrff cyhoeddus fwy o hyblygrwydd o ran sut y maent yn defnyddio'r cyllid hwn na ffrydiau neu grantiau incwm eraill sy'n benodol i brosiectau. Clywsom fod yr hyblygrwydd hwn yn hanfodol.⁴³

72. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda rhywfaint o hyblygrwydd, gall dyraniadau cyllid blynyddol fod yn rhwystr wrth geisio meddwl a chynllunio ar gyfer y tymor hwy. Dywedodd un o swyddogion Cyngor Sir y Fflint:

“[...] annual budgets do not help with long-term planning, do they? You're always on that annual cycle, and although there's relative stability, year to year, we are extremely hampered by short-term grant regimes that come out at the very last minute. We've almost got to have a whole portfolio of projects, potentially waiting to go, in case some money comes up with which we can undertake those.”⁴⁴

⁴¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 7

⁴² Er ei bod yn ofynnol i gyrff y GIG baratoi Cynlluniau Tymor Canolig Integredig am dair blynedd, a bod rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion, caiff cyllid y GIG ei ddyrannu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru

⁴³ Mae Gethin Morgan o Gyngor Sir Ynys Môn yn trafod mor bwysig yw addasu'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu defnyddio i gyd-fynd â chymunedau lleol. Gweler: Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 65

⁴⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 188

73. Mae cryn drafodaeth wedi bod ynghylch hyd cylchoedd ariannu ar bob lefel o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wrthi'n lobi Llywodraeth y DU am setliadau ariannol tymor hwy.⁴⁵ Gofynnwyd i'r tystion a ellid gwneud unrhyw beth arall yn y cyd-destun hwnnw i roi sicrwydd ariannol tymor hwy i gyrff cyhoeddus. Soniodd swyddog o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre am yr heriau i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus:

“ [...] it's very difficult I think for organisations or the Welsh Government to operate in a different time cycle. And what people find when they put down longer term plans, which they need to do, is often they are made redundant by the fact that the funding cycle, or a crisis nationally through economic issues, renders those plans maybe unimplementable.”⁴⁶

74. Roedd ymatebwyr eraill yn anghytuno bod cylchoedd ariannu tymor byr yn rhwystr i weithredu'r Ddeddf. Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod y gallai cyllid tymor byr ei gwneud yn fwy heriol mabwysiadu'r pum ffordd o weithio, ond roedd yn dadlau y dylai cyrrff cyhoeddus dderbyn bod cyfran fawr o'r gyllideb yn sefydlog ac nad yw'n newid o flwyddyn i flwyddyn. Dylai hyn fod yn ddigon iddynt osod gweledigaeth drwy eu hamcanion llesiant a gweithio i gyflawni eu hamcanion.⁴⁷

Ffynonellau eraill o gyllid

75. Yn ogystal â'u prif ffynonellau cyllid refeniw, mae rhai cyrrff cyhoeddus hefyd yn derbyn arian grant at brosiectau neu ddibenion penodol. Gall yr arian hwn ddod gan Lywodraeth Cymru neu gan gyrff dyfarnu grantiau eraill, fel y Loteri Genedlaethol.

76. Clywsom y gall y ffynonellau incwm hyn fod yn amhrisiadwy i ddechrau prosiectau newydd, neu raglenni gwaith. Mae hyn wedi arwain at rywfaifaint o

⁴⁵ Llywodraeth Cymru, ['Cyllideb Ddrafft 2021-22'](#), tudalennau 1 i 4, cyrchwyd ar 5 Chwefror 2021

⁴⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ['Cofnod y Trafodion..11/01/21'](#), paragraff 83

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [FGA33 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

arloesedd a chynnydd wrth integreiddio'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae hefyd yn esgor ar rai heriau:

“[...] whilst we've got the initial funding, to look at something innovative and creative that will make a difference to people locally, what we then have to do is look at our revenue budgets longer term and how that will then change to support and sustain the implementation of that innovation [...] there's a significant amount of public money being invested in the creative element with uncertainty about the longer term sustainability”.⁴⁸

77. Eglurodd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru y gall sefydliadau sydd â sawl ffrwd ariannu wahanol liniaru'r broblem hon, i ryw raddau o leiaf. Er enghraifft, gellir dargyfeirio incwm o weithgareddau masnachol i gefnogi prosiectau eraill. Fodd bynnag, efallai na fydd cyrff cyhoeddus sy'n dibynnu bron yn gyfan gwbl ar gyllid gan Lywodraeth Cymru yn gallu elwa o'r dull hwn.⁴⁹

Yr adnoddau sydd ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

78. Yn wahanol i gyrff partneriaeth strategol eraill, megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a gynigiwyd yn ddiweddar, nid yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn derbyn cyllid penodol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan y Ddeddf i roi cymorth gweinyddol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cael rhywfaint o incwm drwy Grant Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mater i bob bwrdd yw pennu adnoddau priodol a chymesur i'w swyddogaethau cydweithredol.⁵⁰

79. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei chanllawiau statudol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2016:

“[...] mater i'r bwrdd yw penderfynu sut y bydd yn canfod adnoddau ar gyfer y swyddogaethau y mae'n rhaid iddo eu cyflawni, a pha rai sy'n

⁴⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 199

⁴⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 225

⁵⁰ Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus](#)', 2019, tudalen 23, cyrchwyd ar 23 Chwefror 2021

gyfrifoldeb yr holl aelodau statudol yn gyfartal [...] Nid oes gofyn [i Aelodau a chyfranogwyr] ddarparu cymorth ariannol ond cânt wneud os barnant fod ganddynt y pwerau i wneud hynny”.⁵¹

Sut mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud eu gwaith?

80. Soniwyd yn rheolaidd bod y diffyg cyllid penodol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhwystr mawr i'w gwaith.⁵² Clywsom fod y ffaith na ddyrennir adnoddau'n ffurfiol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu hatal rhag gweithio'n effeithiol.⁵³ O ganlyniad i'r model ariannu, gall y baich o ddarparu adnoddau ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus syrthio'n anghymesur ar awdurdodau lleol.⁵⁴ Mae angen i rai cyrff cyhoeddus sy'n cysylltu â mwy nag un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, sy'n aelod statudol o bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru) wneud ymrwymadau adnoddau sylweddol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

81. Soniodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro am rai o'r heriau y mae'n eu hwynebu:

“Other than the regional PSB support grant (which unfortunately was not made available to PSBs this year), all resources deployed which enable the PSB to function effectively as a Board, and to deliver on its objectives, rely on each constituent partner being prepared to commit

⁵¹ Llywodraeth Cymru, [‘Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol.’](#), 2016, tudalen 10, cyrchwyd ar 5 Chwefror 2021

⁵² Gweler: Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 14/12/20’](#), paragraffau 112 a 115; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 11/01/21’](#), paragraff 163; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 18/01/21’](#), paragraff 199; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 01/02/21’](#), paragraff 101; tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA2 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru](#); tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA35 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion](#)

⁵³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 18/01/21’](#), paragraff 241; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 25/01/21’](#), paragraff 240; tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA01 Cyngor Sir Powys](#)

⁵⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 18/01/21’](#), paragraffau 274 i 175

people, time and energy to make PSB working a success. This is a particularly difficult challenge at a time of diminishing budgets [...]"⁵⁵

82. Ategwyd yr heriau hyn mewn tystiolaeth lafar. Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at ganfyddiadau ei Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2019, a ddaeth i'r casgliad bod y diffyg cyllid penodol yn rhwystr i'w datblygiad.⁵⁶ Cytunodd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, gan nodi realiti ymarferol y sefyllfa:

"[...] one of the problems is that you have a number of different bodies around the PSB table and you are always asking one of them to take a lead. And that can result in good partnership working, it can also sometimes create difficulties and tensions and barriers."⁵⁷

83. Eglurodd Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, a Chadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, yr heriau y mae ei Fwrdd wedi'u hwynebu wrth ystyried trefniant cyllideb gyfun anffurfiol:

"We've had discussions as a PSB whether we should all contribute £5,000 in order to build a fund for some work as a PSB. I think the problem we have is the fact that for our organisation and the county council we contribute once. If you go to the health board, they have to contribute three times to three different PSBs. If you go to the fire and rescue service, then it's up to six, and, if go to Natural Resources Wales, it's obviously 22. So, there are barriers there [...]"⁵⁸

84. Er hyn, cawsom sicrwydd bod llawer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn llwyddo i oresgyn yr heriau sy'n deillio o'u model ariannu i ddarparu manteision gwirioneddol i'w cymunedau. Mae rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi uno, gan greu strwythurau rhanbarthol i weithio'n effeithlon ar draws cymunedau lleol. Mae eraill yn edrych y tu hwnt i'w ffiniau daearyddol i sefydlu cydweithio.

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [FGA28 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro](#)

⁵⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 115

⁵⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 229

⁵⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 240

85. Dywedodd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym fod gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnig cyfle a fforwm gwirioneddol i weithio gyda phartneriaid i gyflawni ystod eang o bethau i bobl a chymunedau yng Nghymru.⁵⁹ Roedd Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn cytuno â hyn, gan nodi'r rôl bwysig y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei chwarae wrth adfer yn dilyn y pandemig:

“In the context of COVID, I think we came to the conclusion that the resilience forums are taking the short term, but long-term recovery was going to be led by the PSBs. When we look around the table, I don't think there is another partnership that has as diverse a representation at senior level of the public services. Therefore, if we truly aspire for a unified, one public service driving change across Wales, then probably you don't need to invent something else, because the PSBs exist.”⁶⁰

Ein barn

Cyllid ar gyfer cyrff cyhoeddus

86. Rydym yn cytuno â'r sawl a'n hatgoffodd mai diben y Ddeddf hon yw peidio â gosod baich ychwanegol ar gyrff cyhoeddus. Diben y Ddeddf yw gwneud iddynt feddwl ac ymddwyn yn wahanol. Mae Cytûn yn nodi'r pwynt hwn yn glir:

“[...] it is important to convey to public bodies that the "five ways of working" mandated by the Act are an alternative way of working – not additional ways of working to the usual way. Long term, preventative, integrated, collaborative and inclusive policy making and implementation should over time be able to save money and resources, rather than having to ask for more.”⁶¹

87. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol ac eraill bod ymgorffori newid diwylliant yn gofyn am adnoddau ac arbenigedd. Rydym yn

⁵⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 310

⁶⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 344

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FCA15.Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru](#)

sylweddoli, ar ôl toriadau parhaus i gyllid mewn termau real ar draws y sector cyhoeddus, y gallai cyrff cyhoeddus fod yn teimlo bod pennu adnoddau o ddydd i ddydd yn ddigon anodd heb ddargyfeirio adnoddau oddi wrth y rheng flaen i ymchwilio ac ymgorffori deddfwriaeth uchelgeisiol fel y Ddeddf hon.

88. Yn y tymor byr, mae arnynt angen cefnogaeth gan eraill: Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn trafod rôl y cyrff hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Wrth edrych tua'r dyfodol, fodd bynnag, rhaid i gyrff cyhoeddus beidio â defnyddio cyllid fel esgus dros fethu â mabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Casgliad 4. Ni ddylai diffyg cyllid ychwanegol i gyrff cyhoeddus ymgorffori'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio fod yn rhwystr i weithredu'r Ddeddf.

89. Rydym yn cydymdeimlo'n fwy â'r galwadau gan gyrff cyhoeddus am gylchoedd ariannu hwy. Mae deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn anos ei gweithredu'n briodol os caiff cyllidebau eu gwarantu am gyn lleied â blwyddyn ar y tro.

90. Rydym yn cytuno â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod cyllidebau cyrff cyhoeddus yn sefydlog i raddau helaeth. Ond gall y gwahaniaeth o rai pwyntiau canran yng nghyllideb corff cyhoeddus wneud y gwahaniaeth rhwng un prosiect neu'r llall, neu rhwng un dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus neu'r llall. Mae'r amrywiadau hyn yn arbennig o heriol i gyrff cyhoeddus os nad ydynt ond yn cael gwybod am eu dyraniadau cyllideb ychydig cyn y flwyddyn ariannol nesaf.

91. Am resymau tebyg, rydym yn cytuno nad yw hysbysiad hwyr am gyfleoedd cyllid grant yn ddefnyddiol ychwaith. Mae cydweithredu'n cymryd amser, yn yr un modd â sgysiau ynghylch darparu adnoddau ar gyfer gwaith cydweithredol.

92. Nid yw Llywodraeth y DU yn gyson yn darparu setliadau cyllid hirdymor (h.y. mwy na blwyddyn ar y tro) i Lywodraeth Cymru. Gan mai cyllid gan Lywodraeth y DU yw'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru, rydym yn cydnabod ei bod yn anodd i Lywodraeth Cymru drosglwyddo setliadau cyllid hirdymor i gyrff cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i wneud yr hyn sy'n bosibl i ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'r cyrff cyhoeddus sy'n

ddarostyngedig i'r Ddeddf hon i roi pob cyfle iddynt weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus.

Casgliad 5. Mae cylchoedd cyllido byr a chyhoeddiadau hwyr ynghylch trefniadau cyllido wedi ei gwneud yn anos i gyrff cyhoeddus gydweithio'n effeithiol, cynllunio ar gyfer y dyfodol, a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ganddynt.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y gall ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'r gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio penderfyniadau cyllido mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023-24.

Cyllido Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

93. Mae'n amlwg i ni fod gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gyfyngu gan eu model ariannu. Rhaid i'r gyrff cyhoeddus sy'n eistedd ar y Byrddau fynd drwy brosesau diangen o gymhleth, llafurus a dwys o ran adnoddau, yn ogystal â thrafodaethau anodd weithiau ymysg aelodau, i sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i wneud eu gwaith.

Casgliad 6. Mae'r trefniadau cyllido anghyson ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfyngu ar ba mor effeithiol y gallent fod. Mae ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd ar wahân oresgyn yr un her sylfaenol o ran eu cyllid yn aneffeithlon, nid oes cyfiawnhad clir dros wneud hynny, ac mae wedi arwain at anghysondebau nas dymunir o ran yr hyn a wna Byrddau a'r ffordd y maent yn gweithio.

94. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi defnyddio gwahanol ddulliau o gasglu adnoddau eu haelodau a manteisio ar gyfleoedd cyllido. Er ein bod yn croesawu pragmatiaeth y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cytuno'n llwyr y dylent gael yr hyblygrwydd i ymateb i anghenion eu cymunedau (drwy uno â byrddau cyfagos, er enghraifft), nid ydym yn deall pam nad ydynt yn destun trefniadau ariannu clir a chyson. Mae hyn hyd yn oed yn fwy o syndod pan:

- mae llawer o gyrff cyhoeddus yn aelodau o fwy nag un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan roi pwysau ar eu gallu i gyfrannu at bob un a chan olygu eu bod yn cyfrannu at wahanol Fyrddau mewn gwahanol ffyrdd;
- ar y cyfan, mae aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr un fath ledled y wlad, gyda'r un cyfrifoldebau statudol, a chyda'r un egwyddorion yn sail i'w cyllid. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw esboniad rhesymegol pam na ddylid cael dull cyffredin o gyfuno eu hadnoddau; ac
- mae cyrff cyhoeddus wedi bod yn destun blynyddoedd o doriadau i'w cyllid mewn termau real. Naïf yw credu eu bod yn debygol o roi eu hadnoddau'n wirfoddol ac yn frwdfrydig i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

95. Rydym yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r rhan fwyaf o'r gyrff cyhoeddus a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn: er mwyn cyflawni eu rôl hollbwysig, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael mynediad at gyllid. Dyma'r dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'r dull y mae bellach, yn ôl pob tebyg, yn bwriadu ei ddefnyddio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforaethol.⁶² Dydyn ni ddim yn gweld unrhyw resymeg glir dros drin Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn wahanol.

96. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymrwymo i adolygu sut y caiff Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hariannu gyda'r bwriad o egluro a symleiddio eu trefniadau o ran darparu adnoddau. Rydym yn credu y bydd hyn yn sicrhau y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ganolbwyntio ar gefnogi gyrff cyhoeddus i lwyddo wrth weithredu'r ddeddfwriaeth hon.

⁶² Llywodraeth Cymru, '[Dogfen Ymgynghori: Rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol](#)', Hydref 2020, tudalennau 19 i 21, cyrchwyd ar 16 Chwefror 2021

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y caiff gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyllido. Dylai'r adolygiad ddechrau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiad nesaf y Senedd, a dylid gweithredu casgliadau'r adolygiad mewn pryd iddynt lywio dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Dylid cynnal yr adolygiad gan lynu at yr egwyddorion a ganlyn:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu cael mynediad at gronfeydd cyfun, wedi'u tynnu o adnoddau eu haelodau statudol, y gallent naill ai eu cadw fel endidau corfforaethol ffurfiol neu drwy drefniadau anffurfiol.
- Dylid penderfynu ar gyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ôl canllawiau clir a chyson wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru.
- Dylai cyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu llywio gan y rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gosod ar eu cyfer.
- Dylai'r cyfraniadau y mae'n ofynnol i bob sefydliad eu gwneud i gyllido Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydnabod yr ymrwymïadau ehangach sydd ganddynt i bartneriaethau eraill (gan gynnwys i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill).

4. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Fel llysgennad a gorfodwr, rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn flaenllaw ac yn ganolog i wasanaethau cyhoeddus, i gynghori'r Llywodraeth, ac i fonitro ac asesu cynnydd cyrff cyhoeddus o ran cyflawni eu hamcanion llesiant. Yn y bennod hon, rydym yn trafod adnoddau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sut mae ei swyddfa wedi blaenoriaethu gwaith, a sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb.

Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

97. Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a monitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant.⁶³ Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu arweiniad, cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus – gan gynnwys Llywodraeth Cymru – ac i Archwilydd Cyffredinol Cymru, a thrwy gynnal ymchwil. Yn ymarferol, mae'r math o bethau y mae'r Comisiynydd yn eu gwneud yn cynnwys:

- rhoi cyngor i annog cyrff cyhoeddus ar sut i gymhwyso'r Ddeddf;
- cynhyrchu adnoddau i gefnogi cyrff cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau a chynllunio;
- darparu cyngor ysgrifenedig ar faterion penodol; a
- darparu cefnogaeth a hyfforddiant.

98. Mae gan y Comisiynydd hefyd y pŵer i gynnal adolygiadau ynghylch a yw cyrff cyhoeddus unigol yn gwarchod gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Fel rhan o'r adolygiad, gall y Comisiynydd wneud argymhellion i'r

⁶³ Legislation.gov.uk, '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: Rhan 3](#)', cyrchwyd ar 9 Chwefror 2021

corff cyhoeddus. Rhaid i'r corff cyhoeddus gymryd camau rhesymol i ddilyn unrhyw gamau gweithredu a gynigir gan y Comisiynydd yn ei hargymhellion.

Sut mae'r Comisiynydd wedi mynd ati i wneud ei gwaith

99. Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd eang o dan y Ddeddf gyda chwmpas sylweddol i lunio a blaenoriaethu ei gwaith. Gofynnwyd iddi pa waith oedd ei swyddfa wedi'i flaenoriaethu ers 2015, a pham. Eglurodd y Comisiynydd ei bod wedi dechrau drwy gydnabod y dylai gwaith ei swyddfa ganolbwyntio ar ble y byddai'n cael yr effaith fwyaf:

"I have posed to myself the same question or challenge that public bodies are given: what are the things that, if we got them right, if we did them well, would make the biggest contribution to meeting the seven well-being goals?"⁶⁴

100. Ar ddechrau ei chyfnod yn y swydd, cynhaliodd y Comisiynydd 'sesiynau cynnwys ac ymgysylltu ledled Cymru am chwe mis gydag amrywiaeth o wahanol sefydliadau'. Yn sgil hyn, penderfynodd ei swyddfa ganolbwyntio ar chwe maes, sef sgiliau; system iechyd a lles; profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; defnydd tir a chreu lleoedd; tai; a thrafnidiaeth.⁶⁵ Eglurodd y Comisiynydd fod llawer o feysydd allweddol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, megis datgarboneiddio a chyllideb Llywodraeth Cymru, yn faterion trawsbynciol ac yn cyffwrdd â nifer o'r chwe maes blaenoriaeth.⁶⁶

101. Mae swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn ymateb i geisiadau am gymorth gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Dywedodd wrthym ei bod wedi cael 663 o geisiadau am gyngor gan gyrff cyhoeddus yn ystod y ddwy flynedd a hanner diwethaf.⁶⁷ Mae ei swyddfa'n ymateb i'r ceisiadau hyn naill ai gyda chyngor cyffredinol, gan ddefnyddio deunyddiau ac adnoddau sydd wedi'u llunio ymlaen llaw, neu gyda chyngor wedi'i deilwra lle mae ymholiadau yn cyd-

⁶⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 56

⁶⁵ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, '[Meysydd Blaenoriaeth](#)', cyrchwyd ar 9 Chwefror 2021

⁶⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 56

⁶⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 57

fynd â'r meini prawf mewnol, gan ddibynnu ar gapasiti'r tîm. Dywedodd y gall hyn amrywio o un e-bost wedi'i deilwra i ddulliau cydweithio llawn.⁶⁸

102. Dywedodd y Comisiynydd wrthym ei bod wedi rhoi cryn dipyn o'i hamser i gefnogi, cynghori a llobio Llywodraeth Cymru; mae 43% o'r 663 o geisiadau am ei chymorth wedi dod gan Lywodraeth Cymru.⁶⁹

103. Gofynnwyd i'r Comisiynydd yn benodol sut yr oedd wedi bod yn blaenoriaethu ei gwaith yn ystod y pandemig:

“[...] my support to date has focused on the Welsh Government, and the reason for that is that if we get it right from the top, then we have a better chance of that trickling down. There's also an element of resources and capacity of my office, in terms of our ability to support the other 43 public bodies in an intensive way.”⁷⁰

104. Ychwanegodd ei bod wrthi'n datblygu cynllun gwaith manwl ar hyn o bryd a fydd yn canolbwyntio'n fwy ar gydweithio â chyrff cyhoeddus i'w cefnogi i weithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adferiad yn dilyn Covid-19.⁷¹

Barn cyrff cyhoeddus am gefnogaeth y Comisiynydd

105. Yr adborth a gawsom gan gyrff cyhoeddus eu hunain, a rhanddeiliaid yn ehangach, oedd bod proffil cyhoeddus y Comisiynydd yn un positif, a'i bod hi a'i swyddfa yn ardderchog am hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn hyrwyddwr i'r Ddeddf ac wedi codi ei phroffil, a hynny heb fod ofn rhoi ei chefnogaeth lawn i'r Ddeddf. Roeddent yn dweud bod proffil cyhoeddus y Comisiynydd wedi codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i photensial.⁷²

⁶⁸ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, '[Cyngor a Chymorth](#)', cyrchwyd ar 9 Chwefror 2021

⁶⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraffau 22 a 56 i 57

⁷⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 22

⁷¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 22

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig: [FCA53 Chwaraeon Cymru](#)

106. Nododd rhai cyrff cyhoeddus y wybodaeth a'r ddealltwriaeth dda sydd gan swyddfa'r Comisiynydd o ddatblygu cynaliadwy. Dywedodd un o swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wrthym:

“We’ve found that the support and the input that we’ve had to date from the future generations commissioner’s office has been very, very helpful [...] we were fortunate to have one of the officers come and deliver a session for us with respect to longer term decision making. Colleagues within the health board found that expertise and that input very useful indeed, and they were able to see how that applied to their day-to-day work.”⁷³

107. Roedd cyrff cyhoeddus eraill hefyd yn gadarnhaol ynglŷn â'r gefnogaeth a'r adnoddau a ddarperir gan y Comisiynydd. Yn ôl Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

“The FGC Office publishes very accessible resources, using innovative ways of engaging people and organisations, often thought-provoking and challenging traditional ways of communicating.”⁷⁴

108. Fodd bynnag, nid oedd pob corff cyhoeddus yn cytuno. Dywedodd rhai nad oeddent wedi cael digon o gefnogaeth ymarferol gan swyddfa'r Comisiynydd. Yn ôl rhai, 'cyfyngedig' oedd y cyfathrebu a'r ohebiaeth, a 'gweddol ysbeidiol' yw presenoldeb mewn cyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.⁷⁵ Roedd eraill, fel Cydffederasiwn y GIG, yn ansicr ynghylch faint o gymorth y gallai cyrff cyhoeddus ei ddisgwyl:

“[...] the extent to which the role of the Commissioner’s office is to adopt a ‘hands on’ approach to supporting NHS Wales organisations in implementing the Act is not always clear. NHS Wales organisations would welcome more practical support opportunities from the Commissioner’s office [...]”⁷⁶

⁷³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 11/01/21', paragraff 124

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA19 Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Gwerth](#)

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA02 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru](#)

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA25 Cydffederasiwn GIG Cymru](#)

109. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn teimlo mai cyfyngedig oedd dealltwriaeth swyddfa'r Comisiynydd o sut mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gweithio ynghyd â'r cyfyngiadau y disgwylir iddynt weithio o'u mewn.⁷⁷ Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno, gan awgrymu nad oedd argymhellion y Comisiynydd yn aml yn cael eu trafod gyda chyrff cyhoeddus cyn cael eu cyhoeddi, ac y dangosir dealltwriaeth gyfyngedig o ystyriaethau daearyddol, ariannol a strategol eu sefydliad.⁷⁸

110. Clywsom hefyd am hyd yr adroddiadau a faint o adnoddau a gynhyrchwyd gan swyddfa'r Comisiynydd. Disgrifiwyd yr adroddiadau gan rai i fod yn 'amhosibl ymdopi â hwy',⁷⁹ 'anhygyrch i bobl gyffredin'⁸⁰ ac 'anodd eu deall'⁸¹. Eglurodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys sut y gall hynny ei gwneud yn anodd i gyrff cyhoeddus sy'n brin o adnoddau ystyried canfyddiadau'r Comisiynydd:

"[...] when the reports arrive, the first reaction is, 'Great, but how are we going to deal with this?' There is so much in there, and often they come with very little advance notice [...] For a lot of us, when they arrive, you think, 'Oh, okay, this is a really chunky document that we've now got to digest..'"⁸²

111. Roedd gan gyrff cyhoeddus rai awgrymiadau ynghylch sut y gellid ailffocysu gwaith y Comisiynydd i'w cefnogi yn y ffordd fwyaf effeithiol. Awgrymodd rhai gyrff cyhoeddus wrthym y dylai'r Comisiynydd flaenoriaethu'r dasg o hyrwyddo'r Ddeddf i Lywodraeth Cymru a chyfrannu at broses datblygu polisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf am gael mwy o gefnogaeth uniongyrchol i gyrff cyhoeddus. Galwodd rhai am gynrychiolwyr rhanbarthol i sicrhau bod cymorth ar gael i gyrff cyhoeddus ledled y wlad.⁸³ Galwodd llawer am

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA23: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru](#)

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA44: Cyngor Sir Ddinbych](#)

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA01: Cyngor Sir Powys](#)

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA06: Oxfam Cymru](#)

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA35: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion](#)

⁸² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 214

⁸³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 79

swyddogion cyswllt yn swyddfa'r Comisiynydd i ddarparu cyngor sector-benodol i gyrff cyhoeddus.⁸⁴ Roedd eraill am gael mwy o amser y Comisiynydd.⁸⁵

112. Pan wnaethom gyflwyno cynigion cyrff cyhoeddus i'r Comisiynydd, roedd yn eu croesawu'n fawr:

“I'd absolutely love to be able to do that. I think that, looking at some of the evidence that you've heard from different organisations, it seems that quite a number of them have said that where we are able to go in and provide that support, it does have an impact, and quite a number of them have said, 'What we would like is more time from the commissioner's office,' and I couldn't agree more. My challenge is my level of resources.”⁸⁶

⁸⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ['Cofnod y Trafodion, 18/01/21'](#), paragraff 216

⁸⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ['Cofnod y Trafodion, 11/01/21'](#), paragraff 121

⁸⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ['Cofnod y Trafodion, 01/02/21'](#), paragraff 45

Ffigur 5. Mae'r cwmwl geiriau isod yn nodi'r termau a gododd amlaf yn y 61 ymateb ysgrifenedig a gawsom i'r ymgynghoriad gan gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Po fwyaf yw'r testun, yr amlaf y mae'r term hwnnw'n ymddangos yn y dystiolaeth ysgrifenedig. Soniwyd am "gefnogaeth" 272 o weithiau.



Adnoddau'r Comisiynydd

113. Mae'r Comisiynydd wedi gofyn i'r Senedd sawl gwaith am gyllideb fwy.⁸⁷ Ailadroddodd hyn, gan ddadlau:

⁸⁷ Gweler, er enghraifft, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, '[Cofnod y Trafodion, 01/03/18](#)', paragraff 50; Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, '[Cofnod y Trafodion, 07/11/19](#)', paragraff 48; neu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, '[Cofnod y Trafodion, 30/11/20](#)', paragraff 62.

“My current level of funding is insufficient to allow me to thoroughly monitor and assess all public-body well-being objectives and provide the level of support needed to change public sector culture.”⁸⁸

114. Cymharodd y Comisiynydd gyllid ei swyddfa hi â chyllid comisiynwyr a sefydliadau eraill:

“I am the lowest funded commissioner with the biggest remit. Just to give you a kind of flavour in terms of my resources, I get £1.509 million; £71,000 less than the children’s commissioner, £1.648 million less than the Welsh Language Commissioner. Again, to give you some comparisons, my budget, £1.509 million, the Welsh Books Council, £3.649 million, and the Welsh Local Government Association, £3.2 million [...]”⁸⁹

115. Ategwyd barn y Comisiynydd gan yr hyn a glywsom yn ystod ein digwyddiad rhanddeiliaid, y dystiolaeth a gawsom o’n hymgyngoriad ysgrifenedig, ac yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar. Dywedodd cyrff cyhoeddus yn aml iawn wrthym nad oedd gan swyddfa’r Comisiynydd yr adnoddau i allu rhoi faint o gymorth yr oeddent ei eisiau.

116. Roedd Pennaeth yr Amgylchedd Adeiledig yn Sustrans Cymru am wneud ei farn ef yn glir fod cyfyngiadau ar adnoddau’r Comisiynydd yn golygu na allai ei swyddfa weithio ar lefel leol, a bod hyn yn effeithio ar allu’r Comisiynydd i sicrhau newid o fewn y sector trafndiaeth.⁹⁰

117. Teimlai un o swyddogion Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre y gallai’r Comisiynydd wneud mwy i ymgysylltu â’r cyhoedd ac annog secondiadau rhwng cyrff y sector cyhoeddus a Swyddfa Cenedlaethau’r Dyfodol, a fyddai’n gwella perthnasau gwaith.⁹¹

118. Awgrymodd llawer o gyrff cyhoeddus y byddent yn elwa o gael arbenigwyr rhanbarthol neu sector-benodol o fewn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA33 Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru](#)

⁸⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 01/02/21’](#), paragraff 45

⁹⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 14/12/20’](#), paragraff 257

⁹¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [‘Cofnod y Trafodion, 11/01/21’](#), paragraffau 117 a 140

Dyfodol, ond roeddent yn cydnabod nad oedd hyn yn bosibl o ystyried cyllideb y Comisiynydd.⁹²

Ein barn

Gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hyd yma

119. Cawsom ein sicrhau bod proffil cyhoeddus y Comisiynydd, at ei gilydd, yn un cadarnhaol. Mae'n hybu'r Ddeddf yn dda, ac mae ganddi hi a'i thîm gryn arbenigedd.

Casgliad 7. Mae'r Comisiynydd a'i swyddfa wedi datblygu proffil cyhoeddus cadarnhaol, maent wedi hybu'r Ddeddf yn effeithiol, ac wedi codi ymwybyddiaeth ohoni. Mae ganddynt gryn arbenigedd ym maes datblygu cynaliadwy, ac mae hyn yn sylfaen i'r gefnogaeth a'r cyngor y maent yn eu darparu i gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru.

120. Fodd bynnag, cawsom ein synnu gan yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd gan gyrff cyhoeddus am waith y Comisiynydd a'i swyddfa. Clywsom sawl enghraifft benodol o achlysuron pan oedd arbenigedd a chanllawiau swyddfa'r Comisiynydd wedi llywio gwasanaethau cyhoeddus er gwell neu wedi helpu i ymgorffori'r newid diwylliant sydd mor ganolog i weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn llwyddiannus.

121. Clywsom hefyd nad oes gan rai cyrff cyhoeddus berthynas gadarnhaol â swyddfa'r Comisiynydd a'u bod yn teimlo nad ydynt yn cael digon o gefnogaeth. Nid ydynt yn credu bod y Comisiynydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddi yn y ffordd gywir, ac nid yw bob amser yn glir bod ei swyddfa'n sensitif i'r heriau y mae llawer o gyrff cyhoeddus yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

122. Rydym yn deall bod rôl y Comisiynydd yn golygu, yn anochel, y bydd hi a'i chydweithwyr ar brydiau yn cael sgysiau heriol a hyd yn oed sgysiau beirniadol gyda chyrff cyhoeddus. Mae hyn yn briodol ac yn angenrheidiol. Serch hynny, mae gweithredu'r Ddeddf hon yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydweithio, sydd

⁹² Er enghraifft, gweler cyfraniadau Annwen Morgan, Cyngor Sir Ynys Môn, ac Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion. Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraffau 79 ac 82.

yn ei dro yn dibynnu ar berthnasau cryf ac adeiladol. Gan hynny, rydym yn annog y Comisiynydd a chyrff cyhoeddus i fyfyrion ar yr hyn y gallent hwy ei wneud i feithrin ymddiriedaeth a gwella eu perthynas waith.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 3. Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru sicrhau eu bod yn datblygu perthnasoedd adeiladol. Mae'r anghysondeb yn eu perthnasoedd wedi cyfyngu ar effaith gwaith y Comisiynydd.

Cyllideb y Comisiynydd

123. Nid yw'n briodol i'r Pwyllgor hwn wneud argymhellion ynghylch yr union lefelau cyllid y dylai'r Comisiynydd eu cael. Mae dyraniadau cyllid yn fater polisi i Lywodraeth Cymru, ac felly y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor hwn.

124. Nodwn fod hyd rhai adroddiadau a gyhoeddir gan swyddfa'r Comisiynydd yn ei gwneud yn fwy anodd i rai cyrff cyhoeddus ymgysylltu â'u canfyddiadau. Rydym yn annog y Comisiynydd i ystyried gwneud ei hadroddiadau'n fyrrach, gyda mwy o ffocws, a bydd hyn, gobeithio, yn rhyddhau capasiti yn ei swyddfa ar gyfer gweithgareddau eraill.

125. Serch hynny, nodwn hefyd y dystiolaeth gyson a gawsom am gyllideb y Comisiynydd gan randdeiliaid. Cytunodd cyrff cyhoeddus yn gryf fod adnoddau'r Comisiynydd yn arbennig o gyfyngedig, beth bynnag eu barn ar sut y defnyddiwyd yr adnoddau hynny.

126. Rydym yn dod i'r casgliad bod cyllideb y Comisiynydd wedi ei hatal hi a'i swyddfa rhag cefnogi cyrff cyhoeddus cymaint ag yr hoffent gael eu cefnogi.

Casgliad 8. Nid yw cyllideb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi capasiti digonol i'w swyddfa i roi'r lefel o gefnogaeth ymarferol a'r lefel o gefnogaeth sy'n benodol i'r sector i gyrff cyhoeddus y maent wedi galw amdanynt er mwyn gweithredu'r Ddeddf ar waith.

Edrych tua'r dyfodol: blaenoriaethu adnoddau

127. Mae'n anffodus bod cymaint o amser Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei dreulio yn cefnogi Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn elwa ar arbenigedd y Comisiynydd, ac yn cael ein calonogi gan eu cydweithrediad parhaus. Fodd bynnag, mae cyrff cyhoeddus o wahanol sectorau a gwahanol ranbarthau wedi dweud wrthym fod angen mwy o gefnogaeth arnynt gan y Comisiynydd i weithredu'r ddeddfwriaeth hon.

128. Rydym wedi ei gwneud yn glir na ddylai cyrff cyhoeddus gael unrhyw arian ychwanegol i weithredu'r Ddeddf. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol y bydd angen rhywfaint o adnoddau penodol i fynd o A i B.⁹³ Nid oes angen i'r adnoddau penodol hyn fod yn fwy o arian. Ond mae angen iddo fod yn arbenigedd wrth annog newid diwylliant ar draws eu sefydliadau.

129. Credwn y dylai'r Comisiynydd fod yn blaenoriaethu ei hadnoddau'n uniongyrchol i'r cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am drosi'r ddeddfwriaeth yn newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Mater i'r Comisiynydd a'r cyrff cyhoeddus y mae'n eu cefnogi yw penderfynu a yw ei swyddfa'n penodi cynrychiolwyr rhanbarthol neu swyddogion cyswllt arbenigol i wneud hynny.

130. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ei hun – nid Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – yw sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o arbenigedd yn fewnol i sicrhau bod ei pholisi a'i phenderfyniadau'n cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf. Ni ddylai fod angen llobio Llywodraeth Cymru i weithredu ei deddfwriaeth ei hun.

131. A chyfrifoldeb y Senedd – nid Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif os yw ei pholisi neu ei deddfwriaeth yn anghyson â'r ddeddfwriaeth hon.

⁹³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 14/12/20', paragraff 99

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 4. Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol flaenoriaethu cefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i weithredu'r ddeddfwriaeth hon.

5. Llywodraeth Cymru

Mae'r Ddeddf ei hun yn cynnwys Llywodraeth Cymru ("Gweinidogion Cymru") yn y rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r un cyfrifoldebau datblygu cynaliadwy sylfaenol â'r 43 o gyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. At hynny, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau arwain penodol eraill, megis cyhoeddi dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol, a hybu datblygu cynaliadwy. Yma, rydym yn trafod sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei rôl ddeuol.

Arwain drwy esiampl: y Llywodraeth fel corff cyhoeddus

132. Yn union fel Byrddau Iechyd, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, rhaid i Lywodraeth Cymru osod a gweithio tuag at amcanion llesiant sy'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Rhaid i Lywodraeth Cymru bennu a chyhoeddi ei hamcanion llesiant ar ôl pob etholiad cyffredinol yng Nghymru, a fydd fel arfer yn golygu eu bod ar waith am bum mlynedd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 12 amcan llesiant ar gyfer 2016-21 yn 2017,⁹⁴ ac mae adroddiadau ar ei chynnydd yn erbyn yr amcanion hynny yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn – yn fwyaf diweddar yn 2020.⁹⁵

133. Rydym yn cydnabod bod gosod amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau wrth gyflawni'r amcanion hynny yn faterion polisi ac yn y pen draw yn gyfrifoldeb y Gweinidogion eu hunain yn hytrach na'r gwasanaeth sifil. Wrth gwrs, mae gweision sifil yn rhoi cyngor i Weinidogion ac yn eu helpu i lunio a diffinio polisi; rydym yn trafod hyn yn nes ymlaen yn y bennod hon. Hyd yn oed

⁹⁴ Llywodraeth Cymru, '[Datganiad Llesiant 2017](#)', tudalen 14, fel ar 10 Chwefror 2021

⁹⁵ Llywodraeth Cymru, '[Adroddiad Blynyddol 2020](#)', fel ar 10 Chwefror 2021

o roi hynny i'r neilltu, mae Llywodraeth Cymru yn gorff cyhoeddus yn union fel y 43 arall sy'n dod o dan y Ddeddf hon, ac yn un arbennig o bwysig.

134. Rydym yn cytuno â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: nid yn unig y bydd cyrff cyhoeddus yn dilyn esiampl Llywodraeth Cymru, ond mae'n anochel y bydd pa mor llwyddiannus y mae egwyddorion y Ddeddf wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r Llywodraeth yn effeithio arnynt.⁹⁶ Neu, fel y dywedodd y myfyrwyr a gyfrannod at yr ymchwiliad: "Bai'r blaid sy'n llywodraethu ydyw os nad yw pethau'n iawn yn y pen draw".⁹⁷

135. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a oedd yn credu bod y Ddeddf wedi'i mabwysiadu ar draws y sefydliad:

"It's been encouraging that our recent people survey— a survey of all our staff across a very wide range of subjects— shows that there is high awareness and pretty high levels of adoption of the five ways of working and understanding of what they involve. There's obviously some variation across the organisation, and we'll be looking to follow that up now and make sure that everybody has the same understanding and awareness of what the Act means for them [...]"⁹⁸

136. Fodd bynnag, clywsom gan lawer o gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid fod dull unigol o weithio yn Llywodraeth Cymru, diffyg cysondeb o ran sut mae'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso a newid diwylliant araf o fewn y sefydliad. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod y blynyddoedd cyntaf ar ôl pasio'r Ddeddf. Cyfeiriodd WWF Cymru at ei ymchwiliad yn 2017, a ddaeth i'r casgliad nad oes dull systematig, cydgysylltiedig gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r Ddeddf.⁹⁹

137. Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wrthym, er bod archwiliadau Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru yn gadarnhaol iawn (gweler Pennod 6 i gael rhagor o wybodaeth am ddull gweithio Archwilydd Cyffredinol Cymru), nad

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FCA33 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: [Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn. Crynodeb o'r ymgysylltiad â phobl ifanc](#)

⁹⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 155

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FCA58 WWF Cymru](#)

yw'r penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn hollol gyson ag ysbryd y Ddeddf yn aml.¹⁰⁰

138. Gwnaethom herio'r Ysgrifennydd Parhaol ynghylch a oedd cryn amrywiad o hyd o ran pa mor dda y mae adrannau Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Ddeddf. Dywedodd:

“[...] this is an overarching framework, it's not a straitjacket [...] There needs to be individual decision making involved. I don't want to take a check-list approach to how we respond to the Act in all of our documents, but what we're talking about here is a culture change, and that takes some time to embed. The Act came into force five years ago. I think there's been huge progress over that period. I personally see enormous commitment and pride across the whole of the organisation in an Act that is uniquely Welsh, and that, I think, is very powerful.”¹⁰¹

139. Clywsom fod ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig wedi cyflymu datblygiad naturiol o'n hymagwedd tuag at y pum ffordd o weithio.¹⁰² Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi creu cyfarwyddiaeth newydd ar “ailgychwyn ac adfer”, a osododd o fewn y tîm sy'n gyfrifol am bolisi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.¹⁰³ Soniodd swyddog Llywodraeth Cymru am yr adolygiad 21 diwrnod o reoliadau Covid-19 fel enghraifft o ble roedd Llywodraeth Cymru wedi gwreiddio'r pum ffordd o weithio drwy ymgysylltu ar draws y Llywodraeth, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd a grwpiau cymunedol.¹⁰⁴

¹⁰⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 01/02/21', paragraff 85

¹⁰¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 01/02/21', paragraff 157

¹⁰² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 01/02/21', paragraff 148

¹⁰³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 01/02/21', paragraff 147

¹⁰⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 01/02/21', paragraffau 168 i 170

Hyrwyddo'r Ddeddf

Codi ymwybyddiaeth

140. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.¹⁰⁵ I rai, mae hyn yn cynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith y cyhoedd. Dadleuodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn "bod gan Lywodraeth Cymru rôl bendant i hyrwyddo'r Ddeddf ac efallai cyflymu pwyslais a phwysigrwydd y Ddeddf".¹⁰⁶

141. Yn yr un modd, awgrymodd y Cyfarwyddwr Trawsnewid Strategol, Cynllunio, Perfformiad ac Ystadau yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre y byddai ymgyrch farchnata fawr i godi ymwybyddiaeth pobl o'r Ddeddf ar lefel leol yn fuddiol.¹⁰⁷

142. Clywsom farn debyg gan y rhai a oedd yn bresennol yn ein digwyddiad rhanddeiliaid, a nododd fod llywodraethau sy'n dilyn agendâu datblygu cynaliadwy mewn gwledydd eraill yn gwneud gwaith cadarnhaol o'r math hwn. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol beth oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y Ddeddf:

"We have, in the Welsh Government, put a lot of effort into public awareness. We are accountable, after all, and therefore, in the early phases of implementation, resources were provided, including lots of animations, the famous booklet, and all the other things that we put out to generate public awareness and understanding of something so fundamentally important to how we are developing policy for the future"¹⁰⁸

143. Awgrymodd yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol o'r Ddeddf yn cynyddu wrth i bobl weld canlyniadau pendant a dull

¹⁰⁵ Legislation.gov.uk, '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015, Adran 16](#)', fel ar 18 Chwefror 2021

¹⁰⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 18/01/21](#)', paragraff 92

¹⁰⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 11/01/21](#)', paragraff 194

¹⁰⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 01/02/21](#)', paragraff 183

gweithredu gwahanol. Er enghraifft, dywedodd y canlynol am y cyhoedd yng Nghymru:

“I imagine people will recognise the difference [...] between the approach that was taken in England to developing their system for tracing and protecting people and the one here, which was genuinely co-created with local stakeholders and customers; the same with the shielding initiative. Both of those took a little bit longer to develop as a result, but, once co-created, they had buy-in from all of those stakeholders and customers involved”.¹⁰⁹

Y “bwlch gweithredu”

144. Cred Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod bwlch gweithredu rhwng y dyhead a nodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn polisi a deddfwriaeth a'i hymrwymiad i annog a darparu adnoddau ar lawr gwlad.¹¹⁰ Gwnaethom ofyn i gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid a oeddent yn cytuno.

145. Eglurodd y Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth yn WWF Cymru fod gan sefydliadau'r trydydd sector a oedd wedi bod yn gweithio ar ddatblygu cynaliadwy ddisgwyliadau uchel o effaith y Ddeddf, ac er eu bod yn meddwl y byddai hynny'n digwydd yn eithaf cyflym, nid dyna'r achos.¹¹¹

146. Cytunodd y Comisiynydd, gan ychwanegu eu bod wedi dechrau'n eithaf araf ar ddechrau'r broses o gyflwyno'r Ddeddf. Nid oedd wir yn gweld yr arweinyddiaeth wleidyddol glir iawn honno o amgylch y Ddeddf, ac felly dywedodd nad oedd yn 'llifo i lawr' i'r gwasanaeth sifil ac ati.¹¹²

147. Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr llawer o gyrff cyhoeddus yn rhannu'r teimlad hwnnw. Er bod y Ddeddf yn ymddangos yn rheolaidd â phrif negeseuon a bwriad polisi y Llywodraeth, mynegwyd pryderon ynghylch a oedd hynny'n

¹⁰⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 01/02/21', paragraff 184

¹¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, FGA33 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

¹¹¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 14/12/20', paragraff 226

¹¹² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 01/02/21', paragraff 27

gyfystyr â gweithredu'r Ddeddf. Dywedodd un o swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wrthym:

“Sometimes, there’s a sense that the relationships are shown at the start of a policy, and they’re mapped out in the introduction in the policy section, but then, when it comes to the follow-through on that and the implementation and the monitoring, the positioning of the Act becomes weaker.”¹¹³

148. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol a oedd yn teimlo bod bwlch gweithredu:

“[...] I do believe that there is a very strong pride in and commitment to the Act across the whole of the civil service, but inevitably there will be best practice in some areas that we need to turn into standard practice. So, that’s what we’re looking at— where is there best practice” [...]¹¹⁴

149. Aeth ymlaen i bwysleisio bod Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet yn glir iawn ynghylch gofynion y Ddeddf, a'u bod wedi ymrwymo'n llwyr i'w gwireddu.¹¹⁵ Mae'r Ddeddf yn fframwaith ar gyfer sut y caiff yr holl adnoddau presennol eu defnyddio yn hytrach nag yn ychwanegiad neu'n fater eilradd.¹¹⁶

Monitro ac asesu cynnydd cenedlaethol

150. Mae rôl statudol Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys monitro ac asesu'r cynnydd cenedlaethol tuag at y nodau llesiant. O dan adran 10 o'r Ddeddf, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol i fesur cynnydd cenedlaethol tuag at y nodau llesiant. Nid oes unrhyw amserlenni yn y ddeddfwriaeth sy'n nodi pryd y mae'n rhaid iddynt wneud hynny.¹¹⁷

¹¹³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 11/01/21](#)', paragraff 150

¹¹⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 219

¹¹⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 201

¹¹⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 233

¹¹⁷ Legislation.gov.uk, '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: Adran 10](#)', cyrchwyd ar 18 Chwefror 2021

151. Gall Llywodraeth Cymru ddewis ffurf y dangosyddion, dros ba gyfnod y maent yn berthnasol, a pha mor aml y dylid eu hadolygu. Diben y cerrig milltir yw rhannu'r daith tuag at y dangosyddion cenedlaethol i'w gwneud yn haws mesur cynnydd tuag atynt. Gosododd Llywodraeth Cymru 46 o ddangosyddion yn 2016,¹¹⁸ ond, er gwaethaf cyhoeddi ymgynghoriad ar y cerrig milltir ym mis Ionawr 2019,¹¹⁹ ac ymrwymo i ddiweddariad pellach yn hydref 2019,¹²⁰ nid oes yr un wedi'i osod.

152. Clywsom fod hyn yn nodweddiadol o gynnydd 'poenus o araf' Llywodraeth Cymru,¹²¹ yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar.

153. Credai Colegau Cymru y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dangosyddion cyfredol yn sgil y pandemig:

“Considering the huge challenges the country has faced over the last eight months due to the pandemic, it would be timely to review the current indicators and assess whether they are still the most useful ones, and likewise, whether there is any scope for reduction and simplification.”¹²²

154. Ar 19 Chwefror 2021, namyn tair wythnos ar ôl i'r Ysgrifennydd Parhaol a'i swyddogion ymddangos gerbron ein Pwyllgor, nododd Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip mewn datganiad ysgrifenedig:

- dylai'r pandemig “osod y sylfeini ar gyfer dyfodol cynaliadwy”;
- roedd Llywodraeth Cymru “mewn sefyllfa i ddechrau gweithio ar Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, ailddechrau'r gwaith pwysig ar

¹¹⁸ Llywodraeth Cymru, '[Datganiad Ysgrifenedig - Sut i fesur cynnydd gwlad? - Dangosyddion llesiant cenedlaethol Cymru](#)', 17 Mawrth 2016, cyrchwyd ar 16 Chwefror 2021

¹¹⁹ Llywodraeth Cymru, '[Mesur cynnydd ein cenedl!](#)', Ionawr 2019, cyrchwyd ar 16 Chwefror 2021

¹²⁰ Llywodraeth Cymru, '[Datganiad Ysgrifenedig: Sut fedrwn ni helpu Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd y genedl? - Cynigion ar gyfer datblygu cyfres o gerrig milltir cenedlaethol i Cymru](#)', 17 Gorffennaf 2019, cyrchwyd ar 16 Chwefror 2021

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA06.Oxfam.Cymru](#)

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA21.Colegau.Cymru](#)

ddatblygu Cerrig Milltir Cenedlaethol ar gyfer Cymru a gwneud rhai newidiadau bach i'r Dangosyddion Cenedlaethol”;

- roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun ar gyfer 2021 sy'n “nodi amserlen garlam ar gyfer cyflawni'r amcanion”,¹²³ a
- sefydlwyd fforwm cynghori rhanddeiliaid traws-sector i:
“gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid ar faterion, cyfleoedd a rhwystrau allweddol o ran gweithredu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; yn rhannu arferion arloesol; ac yn darparu mecanwaith ar gyfer trafodaeth rhwng y Llywodraeth a rhanddeiliaid ar faterion allweddol yn ymwneud â gweithredu'r Ddeddf ymhellach.”¹²⁴

155. Mae'r ymrwymadau hyn yn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a fynegwyd gan y rhai a gyfrannodd at ein hymchwiliad, a gyflwynwyd gennym i'r Ysgrifennydd Parhaol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Chwefror 2021.¹²⁵ Mae'r amserlen sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad yn rhagweld y bydd y cerrig milltir a'r dangosyddion cenedlaethol diwygiedig yn cael eu gosod yn y Senedd erbyn mis Rhagfyr 2021 fan bellaf.¹²⁶

Sut mae'r Ddeddf yn rhan o'r broses datblygu polisi

156. Yn amlwg, rhaid i Weinidogion Cymru eu hunain ymgorffori datblygu cynaliadwy yn eu portffolios eu hunain os yw'r Ddeddf hon am gael ei hadlewyrchu ym mhob maes o bolisi'r Llywodraeth. Mae gan wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth gynghori Gweinidogion ar ddatblygu polisi. Felly, byddem yn disgwyl i'r Ddeddf gael ei hymgorffori ym mhroses datblygu polisi gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

¹²³ Llywodraeth Cymru, 'Tueddiadau'r Dyfodol, Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol: Cynllun cyfunol ar gyfer 2021', 19 Chwefror 2021, cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021

¹²⁴ Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Lluio Dyfodol Cymru: Cyflawni'r Cerrig Milltir Llesiant Cenedlaethol a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ac adroddiad ar ddyfodol Cymru', 19 Chwefror 2021, cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021

¹²⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion. 01/02/21'

¹²⁶ Llywodraeth Cymru, 'Tueddiadau'r Dyfodol, Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol: Cynllun cyfunol ar gyfer 2021', 19 Chwefror 2021, cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021

157. Unwaith eto, clywsom gan lawer nad oedd hyn yn wir bob amser, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd yn syth ar ôl pasio'r Ddeddf. Cyfeiriodd WWF Cymru at ei ymchwiliad yn 2017, a ddaeth i'r casgliad bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ddeddf wedi canfod 'nad oes llawer o dystiolaeth hyd yma bod ffrâm y Ddeddf yn ysgogiad wrth ddatblygu polisi'.¹²⁷

158. Dadleuodd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol mai dyma'r achos o hyd. Dywedodd wrthym "Mae'n anodd gweld sut mae polisi'r Llywodraeth mewn perthynas â diwylliant a Chymraeg yn ffynnu yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf ar hyn o bryd."¹²⁸ Roedd myfyrwyr Coleg Gwent ac Inspire Training yn cytuno, gan ddadlau bod y system addysg yn cael ei harwain yn ormodol gan dargedau, ac yn methu â chydabod pwysigrwydd pynciau a sgiliau creadigol sy'n hanfodol i sicrhau Cymru sy'n fywiog yn ddiwylliannol.¹²⁹

159. Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn syml:

"[...] when you start getting different bits of guidance and policy coming from Welsh Government, which doesn't link to the thing that they've created in statute over here and that takes us off in a different direction, that is where the whole thing starts to be undermined."¹³⁰

160. Nid oedd pob corff cyhoeddus yn cytuno. Dywedodd Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wrthym 'fod y Ddeddf yn cael lle blaenllaw yn y polisi a gwaith y Llywodraeth'.¹³¹ Honnodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fod gan Lywodraeth Cymru ddeddfwriaeth dda iawn, a llunwyr polisi da sy'n ceisio gwneud y peth iawn, ac roedd yn credu bod y Llywodraeth yn gwella llawer a bod y polisi'n llawer cliriach.¹³²

161. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol sut mae'r broses datblygu polisi yn gweithio'n ymarferol. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA58.WWF.Cymru](#)

¹²⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 92

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn. Crynodeb o'r ymgysylltiad â phobl ifanc](#)

¹³⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 90

¹³¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 270

¹³² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 11/01/21](#)', paragraff 152

systemau a strwythurau canllaw i'w gwneud yn naturiol i gymhwyso'r pum ffordd o weithio ac ystyried y cyfraniad y bydd unrhyw bolisi penodol yn ei wneud i'r nodau llesiant. Mae templedi ar gyfer cyngor i Weinidogion bellach yn cynnwys adran ar sut y bydd y cyngor yn helpu i wreiddio a gweithredu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ddod â'r Ddeddf i sylw cynghorwyr polisi ar gamau hanfodol drwy gydol y broses datblygu polisi.¹³³

162. Cawsom sicrwydd gan yr Ysgrifennydd Parhaol bod y Prif Weinidog a'i Weinidogion yn gwbl ymroddedig i'r Ddeddf, eu bod yn dangos arweinyddiaeth wirioneddol, a'u bod yn gofyn llawer gan y gwasanaeth sifil wrth ddatblygu polisi o ran cyd-destun cenedlaethau'r dyfodol.¹³⁴

163. Gwnaethon holi'r Ysgrifennydd Parhaol am enghraifft o bryd mae swyddogion wedi gorfod herio Gweinidog ynghylch cynnig polisi sy'n anghyson â'r Ddeddf. Cawsom ein synnu na allai feddwl am un. I'r gwrthwyneb:

“[...] to be honest, it's more the opposite that I can point to, where I can see that the way that policy has been developed has been very much accelerating the development of the five ways of working and delivering the Act.”¹³⁵

164. Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r Ddeddf a bod rhai polisiau anodd iawn wedi elwa o'r pum ffordd o weithio ac wedi cael eu datblygu â hwynt mewn golwg.¹³⁶

165. O ystyried y sicrwydd a gawsom gan yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch ymrwymiad Gweinidogion Cymru i'r Ddeddf, byddem yn disgwyl clywed gan gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid bod y dirwedd polisi yn gyson iawn ag egwyddorion y Ddeddf. Nid oedd hyn yn wir.

¹³³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 164

¹³⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 188

¹³⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 197

¹³⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 201

Tirwedd gymhleth deddfwriaeth a chyrrff partneriaeth

Tirwedd partneriaeth anniben

166. Beirniadaeth gyffredin ar lywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw bod gormod o drefniadau partneriaeth. Ym mis Ionawr 2014, nododd comisiwn â'r dasg o archwilio pob agwedd ar lywodraethu a chyflawni yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru mai "cydweithio rhwng sefydliadau yn y sector cyhoeddus fu'r thema ddiffiniol o ran rheoli'r sector cyhoeddus yng Nghymru ers datganoli. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol ddewis egwyddorol o blaid cydweithredu yn hytrach na chystadlu wrth ddarparu gwasanaethau".¹³⁷ Fodd bynnag, aeth yr adroddiad ymlaen i nodi bod "y ffyrdd yr oedd strwythurau partneriaeth wedi datblygu a thyfu yn feichus ac yn orgymhleth".¹³⁸

167. Ers hynny, mae deddfwriaethau a pholisïau eraill wedi cymhlethu tirwedd y bartneriaeth ymhellach. Mae rhai o'r partneriaethau allweddol yn cynnwys:

- Sefydlodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol.
- Crëodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Crëwyd byrddau partneriaeth anffurfiol i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r cyllid gan Fargeinion Dinas a Bargeinion Twf (a gadarnhawyd rhwng 2016-17).
- Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn creu Cydbwyllgorau Corfforaethol.

168. Mynegwyd pryderon ynghylch cymhlethdod y dirwedd partneriaeth yng Nghymru mewn perthynas â'r Ddeddf pan oedd y Cynulliad yn craffu ar Ddeddf

¹³⁷ Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, '[Adroddiad Cryni](#)', Ionawr 2014, tudalen 21, cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021


¹³⁸ Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, '[Adroddiad Cryni](#)', Ionawr 2014, tudalen 22, cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn 2014.¹³⁹ Mae'r pryderon hyn yn parhau.

¹³⁹ Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru '[Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1](#)', Tachwedd 2014, tudalen 13, cyrchwyd ar 10 Chwefror 2021


Trosolwg o aelodaeth, cylch gwaith a dyletswyddau craidd, a chyllid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chydbwyllgorau Corfforaethol.

Gweithio mewn partneriaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru




*Yn seiliedig ar gynigion cyfredol y Llywodraeth. Manylion i'w cadarnhau mewn rheoliadau.


Aelodaeth



Cylch gwaith a dyletswyddau craidd



Cyllid



169. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chyddfederasiwn y GIG adolygiad ar y cyd i bartneriaethau strategol yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Amlygodd eu hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 (nad oedd yn ystyried effaith ychwanegol Cyd-bwyllgorau Corfforaethol) bryderon ynghylch nifer gormodol o bartneriaethau a chyfarfodydd; gwahaniaethau barn ynghylch swyddogaethau rhai byrddau sy'n gorgyffwrdd; a diffyg aliniad yn ôl troed y partneriaethau. Ni ddaeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid diddymu unrhyw gorff partneriaeth penodol. Fodd bynnag, roedd yn argymhell y canlynol:

- Ni ddylid sefydlu unrhyw bartneriaethau newydd heb ystyried a all partneriaeth sy'n bodoli eisoes sicrhau'r canlyniad gofynnol.
- Ni ddylid rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli heb ystyried pa rwymedigaethau y gellir eu hadolygu neu eu dileu neu pa adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a all adrannau leihau'r trefniadau partneriaeth a sefydlwyd i weinyddu rhaglenni grant penodol.¹⁴⁰

170. Yn ei hadroddiad yn 2020, argymhellodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylai Llywodraeth Cymru roi'r gorau i gymhlethu tirwedd sydd eisoes yn gymhleth.¹⁴¹ Mynegodd adroddiad 2020 yr Archwilydd Cyffredinol bryderon tebyg, ynghylch cymhlethdod tirwedd partneriaethau ac anghysondebau o ran sut y cânt eu hariannu.¹⁴²

171. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, clywsom fwy o bryderon gan gyrrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ynghylch cymhlethdod tirwedd partneriaethau yng Nghymru nag unrhyw fater arall. Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru grynodedeb o'r sefyllfa:

¹⁴⁰ Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyddfederasiwn y GIG, '[Adolygiad o Bartneriaethau Strategol](#)', Gorffennaf 2020, cyrchwyd ar 10 Chwefror 2021

¹⁴¹ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, '[Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#)', Mai 2020, tudalen 125, cyrchwyd ar 12 Ionawr 2021

¹⁴² Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Felly, beth sy'n wahanol?](#)', tudalennau 8 a 38 i 39, Mai 2020, cyrchwyd ar 10 Chwefror 2021

“I think that the diagnosis of the issue that we have is clear. We’ve had numerous reviews and examinations of the partnership landscape, and, fundamentally, they all say the same thing— that it’s too complicated.”¹⁴³

172. Cawsom wybod am ddryswch ynghylch sut mae partneriaethau’n rhyngweithio ac yn gwneud penderfyniadau; trefniadau cyllideb ac adnoddau anghyson; blaenoriaethau gwahanol a chystadleuol ar draws partneriaethau ac aelod-sefydliadau; ôl troed daearyddol sy’n gorgyffwrdd – ond wedi’u camosod; i enwi dim ond rhai materion. Fel yr eglurodd Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol:

“The complex landscape is a huge, huge problem. So, we keep layering new boards and bodies, which makes it difficult for implementation on the ground. We haven’t yet completely nailed our performance management approach, so we’re still managing performance or analysing performance on the basis of short-term performance measures.”¹⁴⁴

173. O ystyried bod pryderon ynghylch cymhlethdod tirwedd partneriaethau yng Nghymru mewn perthynas â’r Ddeddf wedi cael eu mynegi’n rheolaidd ers 2014, roeddem am drafod gyda’r Ysgrifennydd Parhaol y penderfyniadau polisi diweddar a wnaed gan Lywodraeth Cymru – yn enwedig mewn perthynas â Chydbwyllgorau Corfforaethol. Dywedodd:

“[...] there are fundamental differences between corporate joint committees and the other bodies that we have. They are intended to be a vehicle for regional collaboration between local authorities, and the intention is to build on existing, successful regional arrangements and provide the basis for those to evolve.”¹⁴⁵

174. O ran Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, cawsom wybod:

¹⁴³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion 14/12/20](#)’, paragraff 110

¹⁴⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion 01/02/21](#)’, paragraff 69

¹⁴⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion 01/02/21](#)’, paragraff 203

“We will have three very, very significant parts of local and national policy, so that’s transport, land-use planning, including housing, and economic development brought together in a single governance structure.”¹⁴⁶

175. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod Gweinidogion a fyddai wedi gofyn ‘A oes wir angen hyn arnom?’ ond bod y dadleuon o blaid creu’r strwythurau newydd yn argyhoeddiadol.¹⁴⁷ Clywsom gan Lywodraeth Cymru y gallai Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, yn y pen draw, ddisodli rhai o’r strwythurau cydweithredol eraill:

“[...]in the longer term, we would envisage some of those other partnerships, some of those other structures, becoming redundant, actually, because the CJsCs will be taking a much more powerful overview— and a much wider overview as they settle in— that will begin to pick up some of that work of the other partnerships.”¹⁴⁸

Gofynion deddfwriaethol gwrthgyferbyniol neu feichus

176. Yn ogystal â rhwystro cydweithrediad, clywsom hefyd y gall fod yn heriol i gyrff cyhoeddus ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau, sydd weithiau’n groes i’w gilydd. Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol wrthym am y seilwaith biwrocraidd a dywedodd ei bod yn dal i gredu nad yw’r Llywodraeth yn deall bod hynny’n golygu bod swyddfa’r Comisiynydd yn tynnu pobl i ffwrdd o’r broses o weithredu’r Ddeddf.¹⁴⁹

177. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyfeirio at bolisi cynllunio. Fodd bynnag, mewn rhai ffyrdd nid ydynt yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.¹⁵⁰

¹⁴⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)’, paragraff 208

¹⁴⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)’, paragraff 214

¹⁴⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)’, paragraff 214

¹⁴⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)’, paragraff 69

¹⁵⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ‘[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)’, paragraff 8

178. Soniodd swyddog o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wrthym am yr hyn y mae'n ei alw'n '*parallel universes of performance*', gan ddadlau dros integreiddio amcanion yn llawer cryfach o dan y Ddeddf hon gyda mesurau perfformiad eraill.¹⁵¹ Pwysleisiodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys pa mor heriol yw'r sefyllfa i awdurdodau lleol:

"[...] with local government our services are so wide, we are subject to so much legislation [...] sometimes the different legislation require different partnership arrangements, they bring with them different governance, they bring different funding pots and, often, will have different lead organisations, and so, for me, that is where some of the complexity and disconnect tends to come in."¹⁵²

179. Hyd yn oed os yw'r gofynion yn ddealladwy, mae'n llawer o waith i gyrrff cyhoeddus ei gyflawni o hyd. Eglurodd un o swyddogion Cyngor Sir Powys pa mor feichus y gall y fframwaith rheoleiddio ac adrodd fod:

"[...] we have to do our annual performance report; we have to do a public services board annual performance report; we have to do a regional partnership board annual report; the director of social services has to do an annual council reporting framework report; we do an annual governance statement and there are others. And in each of those reports, there is absolute alignment [...] if you did one assessment that you could align the public services to, one delivery plan and one set of reporting, with that, in itself, you'd have alignment of resource to a set of priorities that everyone could sign up to and deliver."¹⁵³

180. Clywsom safbwyntiau tebyg yn cael eu hailadrodd ar draws ein sesiynau casglu tystiolaeth, gan gyrrff y sector cyhoeddus, byrddau gwasanaeth cyhoeddus a chan sefydliadau'r trydydd sector.

¹⁵¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 11/01/21](#)', paragraff 104

¹⁵² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 18/01/21](#)', paragraff 166

¹⁵³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 18/01/21](#)', paragraff 250

181. Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru a oedd y dirwedd ddeddfwriaethol yn groes ac yn feichus, atgoffodd un o'r swyddogion ni y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddod at ei gilydd i ffurfio Byrddau rhanbarthol mwy os ydynt am wneud hynny. Tynnodd sylw at bum bwrdd yng Ngwent sydd wrthi'n ystyried uno'n un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, cydnabu y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i egluro i bartneriaethau'r hyblygrwydd sydd ganddynt ar hyn o bryd.¹⁵⁴

Llythyrau cylch gwaith

182. Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi llythyrau cylch gwaith i Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol i nodi'r blaenoriaethau strategol y dylent eu cyflawni gyda'r cyllid a ddyrannwyd iddynt. Gall llythyrau cylch gwaith gynnwys amcanion lefel uchel sy'n ymwneud â diben craidd y cyrff. Gallant hefyd nodi amcanion penodol ar gyfer y cyrff nodedig sy'n ymwneud â phrosiectau gwahanol neu mewn ymateb i bryderon polisi a nodwyd.

183. Clywsom gan rai cyrff cyhoeddus nad yw'r llythyrau cylch gwaith a gânt gan Lywodraeth Cymru yn integreiddio'n dda ag egwyddorion y Ddeddf, ac y byddai llunio llythyrau cylch gwaith o amgylch y pum ffordd o weithio, neu ochr yn ochr ag amcanion cyrff cyhoeddus eraill neu adrannau'r llywodraeth, o gymorth.¹⁵⁵

184. Cytunodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan awgrymu nad yw llythyrau cylch gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddefnyddio cyllid o fewn fframwaith y Ddeddf ar hyn o bryd.¹⁵⁶

185. Clywsom fod Llywodraeth Cymru – gyda mewnbwn gan y Comisiynydd – yn gweithio i wneud ei llythyrau cylch gwaith yn fwy strategol ac yn seiliedig yn gyfan gwbl ar y pum ffordd o weithio, ac felly, yn hytrach na nodi mewn llythyr cylch gwaith sut yr ydych yn ymwneud â'r Ddeddf, bydd y llythyr cyfan yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r Ddeddf yn gweithio.¹⁵⁷

¹⁵⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraffau 250 a 252

¹⁵⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraffau 87 a 96

¹⁵⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 49

¹⁵⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 256

Cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf ar hyn o bryd

186. Ar hyn o bryd, mae 44 o gyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r Ddeddf.¹⁵⁸ Gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf drwy reoliadau.

187. Yn ei adroddiad statudol yn 2020, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol fod 'Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid dynodi cyrff cyhoeddus ychwanegol drwy orchymyn i fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf'.¹⁵⁹ Yn ei lythyr at y Pwyllgor dyddiedig 15 Ionawr 2021, nododd fod:

“[...] cyflawni'r Ddeddf yn gofyn am ddull gweithredu system gyfan. Os yw cyrff cyhoeddus yn mynd i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, mae angen i'r ymdrech fod yn gydgysylltiedig.”¹⁶⁰

188. Ychwanegodd fod cyrff cyhoeddus newydd y gellid eu hystyried yn ddarostyngedig i'r Ddeddf ers pasio'r Ddeddf yn 2015. Maent yn cynnwys Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Awdurdod Cyllid Cymru. Mae cyrff hefyd a oedd yn bodoli yn 2015 a allai haeddu cael eu cynnwys, fel Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae'r llythyr hefyd yn nodi rhai anghysonderau posibl. Er enghraifft, y posibilrwydd y bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cael ei symud o'i gorff presennol – Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Felindre, sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf – i gorff sydd newydd ei gynnig nad yw'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.¹⁶¹

¹⁵⁸ Legislation.gov.uk, '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: Adran 6](#)', cyrchwyd ar 23 Chwefror 2021

¹⁵⁹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Felly, beth sy'n wahanol?](#)', Mai 2020, tudalen 51, cyrchwyd ar 23 Chwefror 2021

¹⁶⁰ Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Llythyr at Nick Ramsay AS: Rhwystrau ar ffordd Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 yn llwyddiannus 15 Ionawr 2021](#)', cyrchwyd ar 15 Chwefror 2021

¹⁶¹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Llythyr at Nick Ramsay AS: Rhwystrau ar ffordd Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 yn llwyddiannus 15 Ionawr 2021](#)', cyrchwyd ar 15 Chwefror 2021

189. Gofynnwyd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a ddylid gwneud cyrff cyhoeddus ychwanegol yn ddarostyngedig i'r Ddeddf:

“It makes sense to me for the whole of the public sector to be covered by the future generations Act. Do we want another set of however many plans, well-being assessments, various other things? Not necessarily.”¹⁶²

190. Gofynnwyd yr un cwestiwn i'r Ysgrifennydd Parhaol. Cawsom ein hatgoffa ganddi y byddai gwneud i gyrff cyhoeddus ychwanegol fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf yn gofyn am newid y rheoliadau, bod y Llywodraeth bob amser yn agored i gyrff ddilyn gofynion y Ddeddf, a bod nifer ohonynt eisoes yn gwneud hynny yn ôl pob golwg. Felly, gallant gymhwyso'r Ddeddf iddynt hwy eu hunain heb i'r Ddeddf gael ei chymhwyso'n ffurfiol iddynt.¹⁶³

191. Aeth ymlaen i nodi y gall cyrff cyhoeddus o'r fath gael arweiniad gan Weinidogion Cymru, ond bod nifer o'r cyrff hyd braich, fel Trafnidiaeth Cymru a Heddlu De Cymru, wedi penderfynu eu bod am ddilyn ysbryd y ddeddfwriaeth, er nad yw'n berthnasol iddynt yn uniongyrchol.¹⁶⁴

Ein barn ni

Trosolwg o'r cynnydd ers 2015

192. Er gwaethaf yr holl rethreg gadarnhaol ynghylch y Bil wrth iddo basio drwy'r Cynulliad, mae'r dystiolaeth a glywsom yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn araf i droi egwyddorion y Ddeddf yn newid diriaethol ym meddylfryd y Llywodraeth.

193. Credwn na ddangosodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad digonol i'r Ddeddf yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf ar ôl iddi gael ei phasio. Gosododd hyn y naws ar gyfer gweddill y sector cyhoeddus. Methodd Llywodraeth Cymru ag argyhoeddi cyrff cyhoeddus, ac yn wir y cyhoedd, y dylai'r ddeddfwriaeth hon ysgogi newid gwirioneddol i'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu

¹⁶² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 94

¹⁶³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 258

¹⁶⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 262

cynllunio, eu datblygu a'u darparu. O ganlyniad i hyn, ni ddechreuodd cyrff cyhoeddus y broses o ymgorffori newid diwylliant yn ddigon cyflym, gan arwain at gynnydd araf.

Casgliad 9. Roedd Gweinidogion Cymru yn araf yn gweithredu a hyrwyddo'r Ddeddf yn y blynyddoedd yn syth ar ôl iddi gael ei phasio. O'r herwydd, ni weithredodd gwasanaeth sifil Cymru y Ddeddf yn ddigon da yn fewnol ac nid oedd yn ei gwneud yn glir i gyrff cyhoeddus ei bod yn disgwyl iddynt hwy wneud hynny hefyd. Mae hyn wedi bod yn rhwystr sylfaenol i weithredu, ac mae ei effaith yn dal i fod yn amlwg ar draws y sector cyhoeddus heddiw.

194. Fodd bynnag, rydym yn falch o weld bod rhywfaint o gynnydd diriaethol wedi'i wneud ers hynny. Dywedodd rhanddeiliaid a chyrff cyhoeddus wrthym eu bod yn synhwyro newid ym meddylfryd y Llywodraeth tuag at egwyddorion y Ddeddf. Fel yr ydym wedi nodi, gwnaed rhai newidiadau i strwythurau llywodraethu o fewn Llywodraeth Cymru, ac ymddengys bod mwy o ffocws yn y broses datblygu polisi ar ddatblygu cynaliadwy.

Casgliad 10. Er gwaethaf dechrau araf, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd diriaethol wrth fabwysiadu'r Ddeddf ers tua 2017. Rydym yn croesawu'r pwyslais y mae'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Parhaol wedi'i roi ar bwysigrwydd gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus ac yn cael ein calonogi gan newidiadau strwythurol a wnaed wrth gyflawni'r Ddeddf a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru.

195. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod heb ein hargyhoeddi bod y Ddeddf wedi'i hymgorffori'n ddigonol ar draws gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Roeddem yn synnu'n fawr o glywed, ymhlith yr holl gyngor a'r her a roddir i'r Gweinidogion, na allai'r Ysgrifennydd Parhaol nodi un enghraifft o ble roedd swyddogion wedi herio Gweinidogion ynghylch cysondeb polisi gyda'r Ddeddf hon.

196. Cawsom hyn hyd yn oed yn fwy o syndod yng nghyd-destun Cydbwyllgorau Corfforaethol. Mynegodd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn bryderon ynghylch nifer y partneriaethau yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru, fel y gwnaeth y Comisiynydd, yr Archwilydd Cyffredinol, adolygiad a arweinir gan y Llywodraeth

ac, o bosibl, hyd yn oed rhai Gweinidogion.¹⁶⁵ Serch hynny, doedd gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru dal ddim yn cwestiynu a allai creu corff partneriaeth newydd danseilio'r Ddeddf. Mae argymhellion 9 a 10 isod yn ystyried cymhlethdod trefniadau partneriaeth yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru.

197. Rydym yn cydnabod bod ymateb y Llywodraeth i'r pandemig wedi'i lunio gan y math o feddwl cydweithredol ac integredig a ragnodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn croesawu hyn ac yn gobeithio bod hyn yn adlewyrchu newid diwylliant o fewn y sefydliad, yn hytrach na chyddigwyddiad.

198. Fel mater o bryder parhaus, rydym yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau am ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig. Fodd bynnag, rydym yn sicr y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau perthnasol eraill yn ailedrych ar y materion hyn fel rhan o'u gwaith ar y pandemig yn y Chweched Senedd.

Ailddatgan ymrwymiad i'r Ddeddf hon

199. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru ailddatgan ei disgwyliadau gan gyrff cyhoeddus. Mae hyn yn fwy hanfodol nag erioed o'r blaen wrth i ni adfer yn dilyn Covid-19. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu camau gweithredu mewn tri maes penodol i osod y sylfeini ar gyfer llwyddiant dros y pum mlynedd nesaf:

- 1.** Dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol.
- 2.** Adolygu'r gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.
- 3.** Llythyrau cylch gwaith.

Dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol

200. Credwn fod y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol yn hanfodol ar gyfer mesur gweithrediad llwyddiannus y ddeddfwriaeth hon. Byddant yn ei gwneud yn glir i gyrff cyhoeddus bod y Ddeddf hon yn bwysig i'r Llywodraeth. Byddant hefyd yn egluro i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yr hyn y mae Llywodraeth

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 214

Cymru yn disgwyl ei gyflawni ac erbyn pryd. Rydym yn croesawu'r datganiad diweddar gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r corff hwn.¹⁶⁶

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i bennu a chyhoeddi cerrig milltir fel sy'n ofynnol gan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2021.

201. Rydym yn cytuno â Colegau Cymru y dylai'r Llywodraeth gynnal adolygiad o'r dangosyddion cenedlaethol yng ngoleuni'r pandemig. Mae'r cyd-destun y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei ddarparu ynddo dros y pum mlynedd nesaf yn sylfaenol wahanol i pan gyhoeddwyd y dangosyddion gyntaf yn 2016. Mae'r Llywodraeth yn iawn i ymrwymo i wneud hynny, fel y nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ei datganiad ym mis Chwefror 2021 a'r cynllun cysylltiedig. Wrth wneud hynny, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd yr amser i ymgynghori â chyrff cyhoeddus, y cyhoedd a'r llu o sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r sector preifat sydd â chymaint i'w gyfrannu at y ddeddfwriaeth hon ac at yr adferiad o'r pandemig. Fel cam cyntaf i adferiad cynaliadwy yn dilyn Covid-19, mae'n hollbwysig bod y Llywodraeth yn cael y darn hanfodol hwn o waith yn iawn.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i adolygu a chyhoeddi dangosyddion llesiant cenedlaethol diwygiedig heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2021. Dylai'r adolygiad gydnabod yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y pandemig Covid-19 ac ystyried barn cyrff cyhoeddus, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

¹⁶⁶ Llywodraeth Cymru, '[Datganiad Ysgrifenedig: Llundio Dyfodol Cymru: Cyflawni'r Cerrig Milltir Llesiant Cenedlaethol a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ac adroddiad ar ddyfodol Cymru](#)', 19 Chwefror 2021, cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021

Adolygu'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf

202. Wrth inni edrych ar y rhestr o 44 o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ar hyn o bryd, ochr yn ochr â chyrff eraill nad ydynt, nid ydym yn argyhoeddedig bod rhesymeg glir ac amlwg dros eithrio rhai a chynnwys eraill.

203. Nid ydym ychwaith wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl y gellir disgwyl yn realistig i gyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf ei mabwysiadu'n wirfoddol.

204. Nid yw hyn i ddweud ein bod o reidrwydd yn credu y dylai mwy o gyrff cyhoeddus fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf. Mae hynny'n fater polisi i Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r gofynion monitro, archwilio ac adrodd a ddaw yn sgil ychwanegu at y rhestr honno.

205. Fodd bynnag, credwn fod adolygiad o'r cyrff cyhoeddus a ddylai ddod o dan y Ddeddf hon yn amserol, ac y byddai'n cyfrannu at y corff o waith yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r ddeddfwriaeth hon. Credwn fod gweithrediad cyrff cyhoeddus o'r Ddeddf hon yn dibynnu ar hyder bod cysondeb a rhesymeg ynglŷn â sut mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu, a chan bwyl.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Dylid gweithredu canfyddiadau'r adolygiad hwnnw mewn digon o amser i unrhyw gyrff cyhoeddus sydd newydd eu hychwanegu dderbyn eu dyraniadau cyllid a'u llythyrau cylch gwaith cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Dylai'r adolygiad:

- ystyried yr effaith y byddai cynnwys/hepgor unrhyw gorff cyhoeddus penodol yn ei chael ar weithredu'r Ddeddf ar lefel genedlaethol;
- cydnabod y bydd cynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol yn arwain at ofynion adrodd, monitro ac archwilio ychwanegol ac y bydd hyn yn anochel yn arwain at oblygiadau ariannol/adnoddau;
- nodi'n glir ddisgwyliadau cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf yn ffurfiol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, a sut y bydd y disgwyliadau hynny'n cael eu monitro a'u gorfodi; a

- nodi'n glir y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran cynnwys/eithrio a'r broses neu'r amserlenni ar gyfer cychwyn adolygiadau yn y dyfodol.

Llythyrau cylch gwaith

206. Rydym wedi clywed drwy gydol yr ymchwiliad hwn am bwysigrwydd alinio cyllid a blaenoriaethau strategol ar gyfer cyrff cyhoeddus ag egwyddorion y Ddeddf. Rydym yn cydnabod nad yw rhai elfennau o'r broses dyrannu cyllid o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru yn llwyr (er enghraifft, cyfanswm y cyllid a ddyrennir i Gymru gan Lywodraeth y DU ar ffurf Grant Bloc Cymru, neu'r cylchoedd cyllido cyfatebol). Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros gynnwys y llythyrau cylch gwaith y mae'n eu rhoi i gyrff noddedig.

207. Rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i adolygu fformat llythyrau cylch gwaith gyda'r bwriad o'u llunio mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio. Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn. Rydym yn edrych ymlaen at adolygu'r llythyrau cylch gwaith sydd newydd eu llunio pan fyddant yn cael eu rhoi i gyrff cyhoeddus.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i lunio llythyrau cylch gwaith mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar ôl ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r llythyrau cylch gwaith newydd gael eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf.

Egluro tirwedd gymhleth cyrff partneriaeth

208. Nodwn na ddaeth 'Adolygiad o Bartneriaethau Strategol' 2020 dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i'r casgliad y dylid diddymu unrhyw gyrff partneriaeth penodol (er, rydym hefyd yn nodi nad oedd yr adolygiad hwn wedi ystyried effaith Cyd-bwyllgorau Corfforaethol).¹⁶⁷ Ni

¹⁶⁷ Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyddfederasiwn y GIG, 'Adolygiad o Bartneriaethau Strategol', Gorffennaf 2020, cyrchwyd ar 10 Chwefror 2021

chlywsom unrhyw alwadau sylweddol am ddiddymu cyrff partneriaeth penodol yn ystod ein hymchwiliad.

209. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a glywsom, at ei gilydd, fod cyrff cyhoeddus o'r farn bod gormod o strwythurau partneriaeth. Hyd yn oed os ydynt wedi dod o hyd i ffyrdd i'w llywio, mae'r dirwedd deddfwriaethol yn orlawn, gyda negeseuon cymysg, dehongliadau gwahanol o gysyniadau allweddol ar draws gwahanol Ddeddfau, a mesurau perfformiad sy'n gwrthdaro.

210. Nodwn hefyd, wrth i Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) basio drwy'r Cynulliad, yr awgrymodd Llywodraeth Cymru y gallai fod cryn dipyn yn llai na 22 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan leihau eu biwrocraetiaeth ar y cyd. Er bod tri phâr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi uno, gan adael cyfanswm o 19 o fyrddau, mae hyn yn sylweddol fwy na'r 11 neu 12 y soniwyd amdanynt yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn yn 2014.¹⁶⁸

Casgliad 11. Mae tirwedd gymhleth a biwrocraetidd cyrff partneriaeth a lluo o ofynion deddfwriaethol ac adrodd wedi'i gwneud yn fwy anodd i gyrff cyhoeddus fabwysiadu'r Ddeddf hon ac, ar brydiau, wedi peidio â'i chymell yn weithredol.

211. Ni allwn ailadrodd yn ddigon cryf y galwadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, adolygiad Llywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill na ddylid creu unrhyw strwythurau partneriaeth newydd heb archwilio'n llawn a all strwythurau presennol gyflawni'r swyddogaethau gofynnol.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 9. Ni chaiff Llywodraeth Cymru greu unrhyw bartneriaethau na strwythurau cydweithredol newydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau oni bai ei bod wedi archwilio'n llawn:

¹⁶⁸ Senedd Cymru, 'Cofnod y Trafodion: Cyfarfod Llawn, 08/07/14', tudalen 45, cyrchwyd ar 2 Mawrth 2021

- a allai strwythurau partneriaeth presennol, yn hytrach, gyflawni'r swyddogaethau hynny;
- a allai'r strwythur newydd ddisodli'r rhai presennol;
- a all y swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes; ac
- ar ôl ymgynghori â chyrrff cyhoeddus y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, a all y cyrrff cyhoeddus hynny ddangos cefnogaeth i'r strwythurau newydd.

212. Roedd yn ddiddorol nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhagweld y gallai Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arwain at strwythurau partneriaeth eraill yn dod yn ddiangen. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig i gyrff cyhoeddus, yn enwedig y rhai sy'n cyfrannu at waith strwythurau partneriaeth presennol. Mae'r dystiolaeth a gawsom wedi ein harwain i gefnogi'r syniad o symleiddio tirwedd partneriaethau. Felly, rydym yn gefnogol ar y cyfan i'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hawgrymu. Fodd bynnag, rhaid cymryd y camau hyn yn agored, yn dryloyw, ac ar ôl ymgynghori'n llawn â chyrrff cyhoeddus.

213. Cydnabu Llywodraeth Cymru y gellid gwneud mwy i roi gwybod i'r gwahanol strwythurau partneriaeth faint o hyblygrwydd sydd ganddynt i drefnu eu hunain yn fwy effeithlon.¹⁶⁹ Credwn y gellid ymestyn y canllawiau hyn i egluro lle y gellid cydgrynhoi adroddiadau a threfniadau cydymffurfio eraill i leihau'r baich gweinyddol ar aelod-sefydliadau.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau nesaf y Senedd sy'n nodi:

- sut y mae gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, ochr yn ochr â strwythurau partneriaeth mawr eraill, yn rhyngweithio â'i gilydd o

¹⁶⁹ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 207

fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gydag enghreifftiau o arfer da;

- pa hyblygrwydd sydd gan bartneriaethau i wneud penderfyniadau i drefnu eu hunain yn well ac yn fwy effeithlon;
- lle gall partneriaethau a sefydliadau weithredu i symleiddio neu gydgrynhoi'r strwythurau llywodraethu ac adrodd i leihau ailadrodd a dyblygu; a
- barn Llywodraeth Cymru ar dirwedd strwythurau partneriaeth dros y cyfnod adrodd nesaf (2020-25), gan gynnwys unrhyw gynigion i ddiddymu neu gydgrynhoi'r strwythurau hynny.

6. Rhwystrau eraill

Yn y bennod hon, rydym yn ystyried rhwystrau posibl eraill i weithredu ers 2015. Mae'r materion hyn yn drawsbynciol, yn bwydo i'r rhwystrau a ystyrir mewn manau arall yn yr adroddiad hwn, ac yn darparu cyd-destun ychwanegol sy'n rhoi mewnwelediad pellach i'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu'r Ddeddf ar draws y sector cyhoeddus.

Covid-19

Yr effaith ar gyrff cyhoeddus hyd yma

214. Gwnaethom ofyn i gyrff cyhoeddus a oeddent yn teimlo bod y pandemig wedi effeithio ar eu gweithrediad o'r Ddeddf ers dechrau Covid-19 yn gynnar yn 2020. Cawsom wybod am yr effaith ariannol ac adnoddau yn sgil y pandemig, a'i effaith ar waith cyrff cyhoeddus. Clywsom fod Covid-19 wedi arwain at:

"[...] delays in delivering some of our priority work streams that we'd had before, whether we're dealing with the front-line issues of COVID or whether we're dealing with staff absences or supporting our staff working at home and home schooling and so on".¹⁷⁰

215. Cytunodd Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Gwaed Cymru, gan egluro:

"I'm in a position where keeping the wheels on the bus currently is quite hard within a COVID environment, and then bringing people into a conversation about future well-being in the middle of a pandemic is difficult to do."¹⁷¹

216. Cawsom wybod hefyd bod y sector gwirfoddol yn wynebu heriau arbennig o ddifrifol. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wrthym fod Covid-19

¹⁷⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 25/01/21', paragraff 170

¹⁷¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cofnod y Trafodion, 11/01/21', paragraff 131

wedi gweld incwm llawer o sefydliadau'n gostwng yn sydyn, gan arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth gwasanaethau a thoriadau yn nifer y staff. Mae'n dadlau y bydd hyn yn effeithio ar gapasiti'r sector gwirfoddol i roi'r Ddeddf ar waith.¹⁷²

217. Fodd bynnag, i lawer, mae Covid-19 wedi cyflymu'r broses o fabwysiadu a gweithredu'r Ddeddf. Soniodd Amgueddfa Cymru wrthym sut y mae wedi bod yn gweithio mewn ffyrdd newydd gyda byrddau iechyd yn ystod Covid-19.¹⁷³ Soniodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wrthym am arloesedd ym maes radiotherapi, gweithio gyda chleifion canser, a threfniadau cydweithredu newydd â chleifion mewn perthynas â phlasma ymadfer.¹⁷⁴ Soniodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym am gyfleoedd newydd i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio ochr yn ochr â'r trydydd sector i fanteisio ar gefnogaeth cymunedau i bobl sy'n agored i niwed.¹⁷⁵

218. Nododd Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Newid Sir Benfro:

“[...] bod leinin arian i Covid-19, sy'n gwthio i'r amlwg yr angen i'r sectorau gydweithio mewn ffordd gydgyhyrchiol, a ffordd sy'n gynhwysol ac yn gyfarwydd ag anghenion cymunedau lleol [...] Mae rhwystrau ar ffordd gweithredu'r Ddeddf yn bodoli, ond rydym wedi gweld y rhwystrau hynny'n dechrau chwalu yn sir Benfro [...] nid yw cynnydd a newid yn fater o ddewis bellach.”¹⁷⁶

219. Roedd yn galonogol clywed bod y pandemig wedi arwain at newid, neu gyflymu, yng ngweithrediad Llywodraeth Cymru ei hun o'r Ddeddf. Soniodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym am gynllun gwella cyllideb Llywodraeth Cymru, sy'n nodi sut mae gwariant Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'i hamcanion llesiant yng nghyd-destun y pandemig. Er hynny, rhybuddiodd ei

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA17 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#)

¹⁷³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 18

¹⁷⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 11/01/21](#)', paragraff 14

¹⁷⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 171

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA27 Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Newid Sir Benfro](#)

hoptimistiaeth gydag anogaeth i'r Llywodraeth gyflymu ei gwaith a gwneud y cynllun yn fwy pwrpasol.¹⁷⁷

220. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y pandemig wedi arwain at gryfhau ac ymgorffori dull llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth lunio a gweithredu polisïau. Nododd y newidiadau strwythurol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n cydfynd â'r Ddeddf, cyn dod i'r casgliad bod y feirws wedi cyflymu'r datblygiad naturiol o'r ymagwedd tuag at y pum ffordd o weithio, ac ei fod wedi bod yn help mawr i ymgorffori'r Ddeddf yn y ffordd y caiff pethau eu gwneud yn Llywodraeth Cymru.¹⁷⁸

Adferiad yn dilyn Covid-19: edrych tua'r dyfodol

221. Rydym wedi clywed gan lawer fod y pandemig yn gyfle i Gymru ailadeiladu ei gwasanaethau cyhoeddus mewn modd cynaliadwy. Dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn wrthym:

“Yn fy marn i, mae'r Ddeddf rŵan, wrth ddod allan o COVID, yn bwysicach nag erioed o'r blaen, yn bwysicach oherwydd, os ydych chi eisiau Cymru lewyrchus, Cymru gydnherth, Cymru iach, mwy cyfartal, mae'r rheini'n egwyddorion creiddiol nid yn unig i Gymru, ond i bob gwlad drwy'r byd yn gyfan gwbl. Rydyn ni wedi dysgu lot o wersi, a dyna beth rydyn ni eisiau fel Cymru yn dod allan o'r pandemig. A'r ffordd o'i wneud o, yn bosibl efo llai o adnoddau, yw bod yn rhaid i ni weithio efo'n gilydd, ac mae'r pum nod, y pum ffordd o weithio yma yn bwysicach nag erioed ar ôl COVID— y Ddeddf.”¹⁷⁹

222. Cytunodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ddweud wrthym y dylai'r Ddeddf fod wrth wraidd popeth o ran ymateb Llywodraeth Cymru ac o ran ailadeiladu ar ôl y pandemig.¹⁸⁰ Dywedodd wrthym ei bod yn falch bod dull polisi

¹⁷⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 11/01/21](#)', paragraffau 123 a 124

¹⁷⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 11/01/21](#)', paragraffau 146 - 148

¹⁷⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 18/01/21](#)', paragraff 130

¹⁸⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 01/02/21](#)', paragraff 12

Llywodraeth Cymru wedi adlewyrchu'r pum maes blaenoriaeth ar gyfer ailadeiladu y mae hi a'i swyddfa wedi'u hamlinellu.¹⁸¹

223. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod y feirws wedi cyflymu datblygiad naturiol o ymagwedd y Llywodraeth tuag at y pum ffordd o weithio, ac ei fod wedi bod yn help mawr i ymgorffori'r Ddeddf yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn gwneud pethau.¹⁸²

224. Fodd bynnag, cawsom ein hatgoffa am lawer o'r heriau a fydd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru wrth iddynt adfer yn dilyn Covid-19, gyda llawer o'r heriau hynny yn bodoli cyn y pandemig. Dywedodd myfyrwyr Coleg Gwent ac Inspire Training fod llawer o Gymru yn dlawd, bod angen mwy o gyfleoedd a'u cynnig i'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Aeth y myfyrwyr ymlaen i fynegi pryderon ynghylch effaith rhagfarn ar sail hil, rhwystrau dosbarth a thlodi wrth fynd ar drywydd 'Cymru sy'n fwy cyfartal'.¹⁸³

225. I rai, gwaethygyd y tueddiadau hyn gan y pandemig. Dywedodd un o swyddogion Amgueddfa Cymru wrthym fod Covid-19 wedi amlygu pethau ar draws y dirwedd yng Nghymru, o dlodi, allgau, a'r holl heriau cymdeithasol yr oedd yn ymwybodol iawn ohonynt.¹⁸⁴ Cytunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ein rhybuddio y bydd COVID yn cael llawer mwy o effaith ar y difrod ehangach anuniongyrchol i iechyd y boblogaeth, blynyddoedd cynnar, ac ati, na'r feirws ei hun.¹⁸⁵

Ein barn ni: Covid-19

226. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn gan fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn canolbwyntio ar eu hymateb ar unwaith i Covid-19. Felly nid yw'n briodol – ac mae'n rhy gynnar – inni ddod i'r casgliad p'un a yw'r pandemig yn rhwystr i'w gweithredu.

¹⁸¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 12

¹⁸² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 14-8

¹⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig: [Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn. Crynodeb o'r ymgysylltiad â phobl ifanc](#)

¹⁸⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 25

¹⁸⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 165

227. Mae'n amlwg bod Covid-19 wedi cael effaith syfrdanol ar sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Mae wedi gorfodi cyrff cyhoeddus i gydweithredu a chynnwys eraill mewn ffyrdd newydd a chyda brys digynsail. Ni chawsom ein synnu o glywed gan lawer o gyrff cyhoeddus fod y pandemig wedi cyflymu'r gwaith o fabwysiadu'r Ddeddf mewn rhai meysydd.

228. Fodd bynnag, cawsom ein hatgoffa'n gyson o effaith drychinebus Covid-19 nid yn unig ar iechyd y cyhoedd, ond ar anghydraddoldeb addysgol, diweithdra, digartrefedd, tlodi, ac ati. Nid ydym ond yn rhy ymwybodol bod mynd i'r afael â'r materion hyn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus hirdymor, integredig ac ataliol.

229. Er nad ydym yn tanbriso maint yr her sydd o'n blaenau, rhaid i gyrff cyhoeddus adeiladu eu hadferiad yn dilyn Covid-19 o amgylch egwyddor y Ddeddf hon.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 11. Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sicrhau bod y pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori yn eu cynlluniau ar gyfer adferiad o'r pandemig Covid-19. Rydym yn argymhell nad yw unrhyw gynnydd y maent wedi'i wneud yn eu hymateb uniongyrchol i'r pandemig yn cael ei golli, a'u bod yn symud eu ffocws o'r dydd i ddydd i'r hirdymor ac atal.

Gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru

230. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn y Ddeddf yw archwilio cyrff cyhoeddus i asesu a ydynt wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu, a chymryd camau i gyflawni, eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio pob un o'r 44 o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf o leiaf unwaith ym mhob 'cyfnod adrodd'. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod pob corff cyhoeddus fel arfer yn cael ei archwilio o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

231. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi mai ei rôl yw edrych ar 'sut mae cyrff cyhoeddus wedi cynllunio a chwblhau eu gwaith'.¹⁸⁶ Neu, fel y dywedodd wrthym yng nghyfarfod y Pwyllgor:

"What we are effectively doing here is trying to audit organisational behaviour and culture, and that's a very different space for us to operate in, a very different space for any audit institution to operate in."¹⁸⁷

232. Mae adroddiad 2020 yr Archwilydd Cyffredinol yn egluro mai dull Archwilio Cymru o archwilio cyrff cyhoeddus heblaw Llywodraeth Cymru yn ystod y pum mlynedd gyntaf fu cynnal 'archwiliadau manwl o sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i chymhwyso mewn perthynas â gweithgareddau penodol ('camau'), ochr yn ochr â chasglu gwybodaeth o'i astudiaethau lleol a chenedlaethol eraill.¹⁸⁸ Yn gyffredinol, mae Archwilio Cymru wedi archwilio un gweithgarwch penodol fesul corff cyhoeddus (dull 'un cam').

233. Roedd gan yr Archwilydd Cyffredinol ymagwedd wahanol i archwiliad statudol Llywodraeth Cymru. Yn wahanol i'r dull 'un cam' a gymerwyd gyda'r 43 o gyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, mae ei adroddiad yn 2019 yn egluro 'O ystyried ehangder cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, fe wnaethom ddethol cam a arweinir gan is-adran polisi ym mhob un o'i thri phrif grŵp'.¹⁸⁹ Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y dull 'tri cham' hwn yn adlewyrchiad o faint ac ehangder cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.¹⁹⁰

234. Gwnaethom ofyn i gyrff cyhoeddus am eu barn ar sut mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi mynd at ei waith.

¹⁸⁶ Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Felly, beth sy'n wahanol?](#)', Mai 2020, tudalen 12, a welwyd ar 15 Chwefror 2021

¹⁸⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 24

¹⁸⁸ Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Felly, beth sy'n wahanol?](#)', Mai 2020, tudalen 5, a welwyd ar 12 Chwefror 2021

¹⁸⁹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Llywodraeth Cymru](#)', Tachwedd 2019, tudalen 7, cyrchwyd ar 15 Chwefror 2021

¹⁹⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 18

235. Dywedodd Cyngor Abertawe wrthym fod dryswch a dyblygu rhwng rolau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilio Cymru. Aeth ymlaen i nodi bod yr archwiliadau 'un cam' yn ymddangos yn artiffisial ac mai dull gwell fyddai archwilio cymhwysiad y Ddeddf yn gyffredinol, gan edrych ar werth am arian.¹⁹¹

236. Roedd eraill yn anghytuno. Dywedodd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru:

“[...] the auditor general and Audit Wales have come in and, I think, done a really useful piece of work looking at how it's working and what the issues are, and I think that level of independent scrutiny and thought was very welcome. So, I would see [the roles of the Auditor General for Wales and the Future Generations Commissioner] as being very distinct [...]”.¹⁹²

237. Cytunodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys fod gwaith Archwilio Cymru yn werthfawr. Dywedodd wrthym pan fyddant yn derbyn adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol neu gan rai o'r arolygiaethau eraill, maent yn gwybod eu bod ar y ffordd – maent wedi gweithio gyda hwy ar y cynnwys, wedi cael eu cyfweld, maent wedi cael cyfarfodydd gyda hwy, maent wedi bod yn arsylwi eu gwaith.¹⁹³ Ychwanegodd fod ganddynt gysylltiadau rhagorol ag Archwilio Cymru. Mae ganddynt swyddogion sydd wedi'u dynodi'n glir yn gweithio ar wahanol elfennau o'r gwaith gyda hwy ac mae eu gwaith yn sicr yn effeithiol ac yn ychwanegu gwerth.¹⁹⁴

238. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

“[...] officials at all levels in the Welsh Government have regular contact with the auditor general and with his team. And we are very grateful for them. I see it as a very strong relationship— one that is certainly important to me and I hope is of value to them as well.”¹⁹⁵

¹⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [FGA07 Cyngor Abertawe](#)

¹⁹² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ['Cofnod y Trafodion, 25/01/21'](#), paragraff 292

¹⁹³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ['Cofnod y Trafodion, 18/01/21'](#), paragraff 213

¹⁹⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ['Cofnod y Trafodion, 18/01/21'](#), paragraff 232

¹⁹⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ['Cofnod y Trafodion, 01/02/21'](#), paragraff 278

239. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi croesawu ei adroddiad yn fawr iawn hefyd, ac adroddiadau blaenorol y mae ef a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u llunio. Ychwanegodd fod yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd wedi siarad ag uwch-arweinwyr gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru a'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r Ddeddf.¹⁹⁶

240. Gwnaethom holi'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch yr adborth gwahanol a gawsom gan gyrff cyhoeddus o ran y dull archwilio un cam. Eglurodd mai diben y dull 'un cam' oedd sicrhau eu bod yn ymgysylltu â realiti gweithredol busnes gwahanol gyrff cyhoeddus, yn hytrach nag aros ar lefel gorfforaethol yn unig.¹⁹⁷ Ychwanegodd na fyddai'n ymarferol cynnig barn ar yr holl wasanaethau a ddarperir gan bob un o'r 44 o gyrff cyhoeddus.

241. Clywsom fod y dull 'un cam' wedi'i ddatblygu gyda'r gyrff cyhoeddus. Y diben oedd archwilio a oedd y Ddeddf wedi'i hymgorffori drwy'r sefydliad i gyd - o'r top i'r gwaelod.¹⁹⁸

242. Holwyd Archwilydd Cyffredinol a oedd yn teimlo y byddai wedi bod yn well, o edrych yn ôl, gan gymryd y dull i'r gwrthwyneb: dechrau gydag edrych yn fwy strategol ar y dull corfforaethol, cyn archwilio prosiectau penodol yn fanwl yn nes ymlaen unwaith y byddai gyrff cyhoeddus wedi cael peth amser i drosi'r ddeddfwriaeth yn newid go iawn ar lefel cyflawni prosiect.

243. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn hyderus ei fod wedi defnyddio'r dull cywir. Dywedodd un o swyddogion Archwilio Cymru wrthym fod ei arolwg o gyrff cyhoeddus wedi gofyn beth oedd eu barn ar y gwaith sydd wedi'i wneud ganddynt. Yn gyffredinol, roedd yn fodlon ar y cyfan ar yr ymatebion a gafwyd ar hynny.¹⁹⁹ Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn teimlo y cymerwyd y camau priodol i ddod i adnabod a gosod cyd-

¹⁹⁶ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 278

¹⁹⁷ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 18

¹⁹⁸ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 19

¹⁹⁹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraffau 19 i 22

destun i'r gwaith a deall y gwaith. Gellir yn ddi-os wella. Mae hon yn diriogaeth newydd iawn iddynt fel archwilydd yn ogystal ag i gyrff cyhoeddus.²⁰⁰

244. Ym mis Medi 2020, ymgynghorodd Archwilio Cymru â chyrff cyhoeddus ynghylch sut y dylai'r Archwilydd Cyffredinol wneud ei ymchwiliadau yn ystod yr ail gylch adrodd (2020-25). Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu ymgorffori ei ymchwiliadau o dan y Ddeddf hon yn ei werth am arian a'i waith archwilio lleol. Roedd hefyd yn cynnig cryfhau ac ehangu cydgysylltiad ei swyddfa â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.²⁰¹

245. Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn gobeithio rhoi mwy o ffocws i ymgorffori'r ffyrdd o weithio yn gorfforaethol ar lefel uwch, a chwilio am dystiolaeth o ymrwymiad gwirioneddol ar lefel uwch fel rhan o'i rownd nesaf o ymchwiliadau.²⁰²

Ein barn ni: gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru

246. Roeddem yn falch o glywed y safbwyntiau cadarnhaol (ar y cyfan) a fynegwyd gan gyrff cyhoeddus ynghylch gwaith Archwilio Cymru o dan y Ddeddf hon. Roedd y rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus a'r rhanddeiliaid y clywsom ganddynt yn deall rôl yr Archwilydd Cyffredinol ac yn credu ei fod ef a'i swyddfa wedi ymgymryd ag ef yn briodol.

247. Roedd yn galonogol hefyd yr ymddengys bod Archwilio Cymru wedi mabwysiadu llawer o ffyrdd y Ddeddf o weithio y mae'n ofynnol iddynt eu harchwilio mewn cyrff eraill. Yn benodol, nodwn yr ymdrech sylweddol y mae wedi'i buddsoddi i weithio ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus i ddatblygu'r strategaeth archwilio. Rydym yn cymeradwyo'r ysbryd cydweithredol hwn, yn enwedig yn ystod cylch adrodd cyntaf y Ddeddf.

248. Rhaid i'r pum ffordd o weithio fod yn ganolog wrth inni geisio sicrhau cynnydd gwirioneddol mewn datblygu cynaliadwy. Mae'r Archwilydd Cyffredinol

²⁰⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 24

²⁰¹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, '[Cyflawni ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol, 2020-25](#)', Medi 2020, tudalen 8, cyrchwyd ar 16 Chwefror 2021

²⁰² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 18

yn gyfrifol am asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a gweithio tuag at eu hamcanion llesiant. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ei fod yn gyfrifol am asesu a yw cyrff yn mabwysiadu'r pum ffordd o weithio.

249. Felly mae'r Archwilydd Cyffredinol yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf hon.

250. Rydym yn gwerthfawrogi bod cynnal ymchwiliadau o dan y Ddeddf hon yn rôl newydd i archwilwyr y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, wrth i'r sector cyhoeddus geisio adfer yn dilyn Covid-19, rydym yn annog yr Archwilydd Cyffredinol i godi ei ddisgwyliadau o gyrff cyhoeddus. At ei gilydd, mae'r cynnydd hyd yma wedi bod yn rhy araf. Ni allwn fforddio i hynny barhau.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 12. Wrth inni ddechrau'r ail gyfnod adrodd, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru godi ei ddisgwyliadau o gyrff cyhoeddus a pheidio ag oedi cyn tynnu sylw at fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn annigonol.

Brexit

251. Gwnaethom godi mater Brexit gyda chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid i benderfynu a fyddent yn nodi'r ansicrwydd ynghylch perthynas Prydain â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol fel rhwystr i weithredu'r Ddeddf.

252. Cyfeiriodd rhai tystion at heriau ariannol posibl yn deillio o Brexit. Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw at yr ansicrwydd sylweddol a wynebir gan bawb, nid yn unig oherwydd sefyllfa Covid-19, ond hefyd sut mae'r llwybr pontio yn symud ymlaen gyda pherthynas newydd gyda phartneriaid masnachu allweddol y Llywodraeth yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mewn mannau eraill.²⁰³ Nodwyd tystiolaeth hefyd o golledion posibl, a diffyg amnewid cyllid penodol yr UE.

253. Awgrymodd cynrychiolydd o Gyngor Sir Ceredigion, fod ymateb i Brexit wedi arwain at gyrff cyhoeddus yn gwneud "[m]wy o *here and now decisions* yn

²⁰³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 01/02/21](#)', paragraff 265

ddyddiol.”²⁰⁴ Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cytuno, gan ddweud wrthym fod gweithredu'r Ddeddf yn yr hinsawdd sydd ohoni yn heriol iawn:

“[...] especially at a time when we have a kind of perfect storm of COVID, of departure from the EU, of deep inequalities, of climate change, et cetera, et cetera, to shift organisational behaviour and funding decisions away from short-term activity to more preventative forms of spend”²⁰⁵

254. Dadleuodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y gallai deddfwriaeth y DU a gyflwynwyd oherwydd Brexit ei gwneud yn fwy anodd gweithredu polisi sydd wedi'i deilwra i gymunedau lleol:

“The Internal Markets Bill represents a fundamental threat to successful delivery of the Act. At an overarching level this legislation would make it more difficult for Wales to introduce policies that are tailored to local requirements [...] The UK Internal Market Bill's own regulatory impact assessment acknowledges that societal benefits that might have been achieved through local policies may not be achievable under this legislation, but views this as an acceptable cost if it results in greater UK wide economic efficiency.”²⁰⁶

255. I eraill, mae effaith Brexit ar weithredu'r Ddeddf yn aneglur o hyd.²⁰⁷

Ein barn ni: Brexit

256. Yn anochel, mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi wynebu ansicrwydd ynghylch perthynas fasnachu'r DU â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ers i Brydain bleidleisio i adael yn 2016. Mae amrywiaeth o benderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus Cymru wedi'u gwneud

²⁰⁴ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 87

²⁰⁵ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 14/12/20](#)', paragraff 99

²⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA17 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#)

²⁰⁷ Gweler: Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraff 14, neu dystiolaeth ysgrifenedig: [FGA02 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru](#)

ar fyr rybudd ers hynny. Mae'n aneglur o hyd beth fydd effaith gadael yr UE a'r newidiadau dilynol yn neddfwriaeth y DU i gyrff cyhoeddus.

257. Rydym yn cydnabod y cythrwfl hwn, ac yn cydnabod yr heriau ychwanegol y mae cyrff cyhoeddus wedi'u hwynebu wrth gynllunio ar gyfer y tymor hwy yng nghyd-destun Brexit.

258. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn bod Brexit wedi bod yn rhwystr i weithredu'r Ddeddf. Nid ydym yn credu ei fod wedi cyflwyno unrhyw rwystrau sydd mor sylweddol i gyfiawnhau mabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy yn araf. I fod yn deg â'r cyrff cyhoeddus a gyfrannodd at ein hymchwiliad, ychydig iawn a awgrymodd fel arall.

Casgliad 12. Heb os, mae'r ansicrwydd ynghylch Brexit wedi'i gwneud yn fwy heriol i gyrff cyhoeddus gynllunio ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw effaith lawn gadael yr UE ar wasanaethau cyhoeddus Cymru yn hysbys o hyd.

Tensiynau rhwng canoli a lleoleiddio

259. Amlinellodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru bwysigrwydd y berthynas rhwng cyrff cyhoeddus lleol, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chyrff cenedlaethol, megis Llywodraeth Cymru neu Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Nododd tystiolaeth y Ganolfan fod rhai cyrff lleol yn teimlo bod hyblygrwydd ar gyfer gweithredu'n lleol wedi'i gyfyngu gan rôl oruchwylio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. I'r gwrthwyneb, nododd hefyd fod cyrff lleol eraill eisiau arweiniad a chyllid mwy canolog. Mae'r papur yn nodi bod sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng ymreolaeth leol a chanllawiau canolog wedi'i amlygu gan astudiaethau o weithredu polisi datblygu cynaliadwy mewn mannau eraill.²⁰⁸

260. Mae'r cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau lleol a chefnogaeth a goruchwyliaeth ganolog wedi bod yn thema drwy gydol ein hymchwiliad. Rydym wedi clywed yn gyson bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaeth cyhoeddus ymgysylltu â'u cymunedau i sicrhau bod eu dull o

²⁰⁸ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Rhwystrau i Weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015', Ionawr 2021, cyrchwyd ar 15 Chwefror 2021

ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn briodol ar gyfer anghenion lleol. I rai, nid yw hyn yn digwydd yn ddigonol. Awgrymodd Gofal Solfach, er enghraifft, yr ymddengys nad oes gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn benodol lawer i'w wneud â chymunedau lleol. Nid yw'n ymddangos eu bod yn adrodd iddynt nac yn gofyn am dystiolaeth ganddynt.²⁰⁹

261. I eraill, y broblem yw mwy o wasanaethau'n cael eu canoli, nad yw'n cydfynd â'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar fynediad at wasanaethau lleol, yn enwedig yn ystod argyfwng.²¹⁰

262. Rydym wedi clywed gan gyrff cyhoeddus bod rhyddid i weithio'n hyblyg i ddiwallu angen lleol yn bwysig, yn enwedig i fyrddau gwasanaeth cyhoeddus. Fel y trafodwyd ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn, mae gwerth mewn hyblygrwydd o ran sut y gall gyrff cyhoeddus ddefnyddio eu cyllid fel y gallant deilwra sut maent yn defnyddio eu hadnoddau. Dywedodd un o swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wrthym sut yr oedd prosiect a gychwynnwyd gan fyrddau gwasanaeth cyhoeddus lleol ochr yn ochr â phartneriaid eraill, yn gallu cael ei uwchraddio i fynd i'r afael â materion tebyg ledled y rhanbarth.²¹¹

263. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru:

“We want the right local solutions to be in place. I think, in many areas, what we certainly don't want to do is to impose central or national structures when they are not appropriate for dealing with some of these really difficult multi-organisational, multipartner issues.”²¹²

264. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn gynnar yn yr adroddiad hwn, clywsom mor bwysig ydyw bod polisi Llywodraeth Cymru yn gyson â'r Ddeddf.²¹³ Rydym yn nodi nifer y gyrff cyhoeddus a ofynnodd am fwy o gefnogaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y trafodwyd ym Mhennod 5, a'r gwerth a roddir gan lawer o dystion ar rannu arfer gorau ledled y wlad – yn aml gyda chefnogaeth

²⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [Gofal Solfach FGA14](#)

²¹⁰ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 14/12/20](#)', paragraff 266

²¹¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 18/01/21](#)', paragraff 53

²¹² Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 01/02/21](#)', paragraff 252

²¹³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion 11/01/21](#)', paragraff 137

cyrff canolog.²¹⁴ Mae gweithredu a dehongli lleol yn amlwg yn hanfodol, ond ymddengys bod goruchwyliaeth a chefnogaeth ganolog hefyd.

Ein barn ni: tensiynau rhwng canoli a lleoleiddio

265. Mae perthnasau ac ymddiriedaeth gadarnhaol rhwng cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol i weithredu'r ddeddfwriaeth hon. Yn yr un modd, rhaid i gyrff cyhoeddus fod â pherthynas gref â phartneriaethau gwasanaeth cyhoeddus rhanbarthol, cyrff cenedlaethol, a llywodraeth ganolog.

266. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Ddeddf hon yn lleol, sydd, yn ein barn ni, yn hanfodol i gael gwasanaethau cyhoeddus yn iawn i gymunedau lleol ledled Cymru.

267. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod angen i gyrff cyhoeddus ganfod bod y Ddeddf yn ganolog i wneud penderfyniadau o fewn llywodraeth ganolog. Mae ymddiriedaeth rhwng haenau o lywodraeth yn dibynnu ar benderfyniadau ynghylch cyllido, gweithredu a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus gan bwyntio'n gyson tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy.

²¹⁴ Gweler, er enghraifft, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 18/01/21](#)', paragraffau 151 a 156, neu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, '[Cofnod y Trafodion, 25/01/21](#)', paragraff 38

7. Gair olaf: rôl y Senedd

268. Mae'n bwysig myfyrio ar rôl y Senedd wrth roi'r ddeddfwriaeth hon ar waith. Rydym wedi trafod y rhwystrau amrywiol i weithredu'r Ddeddf hon. Mae llawer o'r rhwystrau hynny – megis cymhlethdod y dirwedd ddeddfwriaethol yng Nghymru a'r amrywiaeth o strwythurau partneriaeth – ar waith oherwydd iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd.

269. Yn yr un modd, mae rhai wedi nodi arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru fel rhwystr i weithredu'r ddeddfwriaeth hon. Unwaith eto, y Senedd sy'n bennaf gyfrifol am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

270. Ym mhennod ragarweiniol yr adroddiad hwn, nodwyd mai hwn yw'r tro cyntaf i'r Senedd graffu ar ba mor llwyddiannus y gweithredwyd y Ddeddf gan yr holl gyrff sydd â chyfrifoldebau oddi tani. Mae'n anodd cyfiawnhau hyn o ystyried ei heffaith ar wasanaethau cyhoeddus. Yn yr un modd, rydym hefyd yn nodi na wnaed unrhyw waith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf hon ers iddi gael ei phasio yn 2015.

271. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi arwain yr ymchwiliad penodol hwn. Mae ein gwaith wedi'i gyfyngu gan ein cylch gwaith: craffu ar yr economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd o arian cyhoeddus. Rhaid i'n ffocws fod ar weithredu, nid polisi. Nid oes gan yr un o bwyllgorau polisi'r Senedd gylch gwaith digon eang i ystyried darn mor gyfannol o ddeddfwriaeth. Er bod hwn yn ymchwiliad sylweddol ac eang, roedd llawer o faterion pwysig na wnaethom eu hystyried yn fanwl oherwydd eu bod y tu allan i'n cylch gwaith. Er enghraifft:

- Y bwriad polisi sydd y tu ôl i'r Ddeddf.
- Drafftio'r ddeddfwriaeth (er enghraifft, mynegwyd nifer o bryderon sylweddol yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth ei hun gan Ysgol y Gyfraith Bangor, Grŵp Ymchwil Cyfraith Gyhoeddus, na allem yn anffodus ei dilyn fel rhan o'r ymchwiliad hwn.²¹⁵).

²¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FGA47.Ysgol y Gyfraith Bangor. Grŵp Ymchwil Cyfraith Gyhoeddus](#)

- Unrhyw benderfyniadau polisi Gweinidogol neu agored, fel:
 - ystyriaeth fanwl o p'un a yw penderfyniadau polisi penodol y Llywodraeth yn cyd-fynd â'r Ddeddf;
 - pa gyrff cyhoeddus ddylai ac na ddylai fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf; a
 - p'un a yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'r Dangosyddion Cenedlaethol neu'r Cerrig Milltir cywir.

272. Mae'r rhain yn feysydd craffu pwysig y dylid eu hystyried yn gynnar yn y Chweched Senedd.

273. Wrth inni symud i adferiad yn dilyn y pandemig, bydd angen i'r Senedd ystyried y ffordd o fynd i'r afael â'r broses o graffu ar faterion sy'n croesi dros ffiniau polisi neu bortffolios gweinidogol. Mae'r her hon yn amlwg yn y llywodraeth yn ogystal ag yn y senedd, fel y dengys yn swydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Trosglwyddo Ewropeaidd.

274. Mae Pwyllgor Busnes y Senedd yn gyfrifol am drefnu busnes y Senedd. Ei waith yw "hwyluso'r modd o drefnu trafodion y Senedd yn effeithlon", fel y nodir yn Rheol Sefydlog 11.1.²¹⁶

275. Felly rydym yn annog Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd i wneud yr hyn a all i alluogi'r Senedd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei gweithrediad o'r Ddeddf hon a deddfwriaeth a pholisi trawsbynciol arall. Yna cyfrifoldeb y Chweched Senedd yn ei chyfanrwydd yw sicrhau ei bod yn gwneud hynny.

ARGYMHELLION

Argymhelliad 13. Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd sicrhau bod strwythur Pwyllgor y Senedd yn hwyluso gwaith craffu effeithiol ar deddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a materion eraill sy'n pontio meysydd polisi a phortffolios Gweinidogol.

²¹⁶ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Busnes', cyrchwyd ar 24 Chwefror 2021

Argymhelliad 14. Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd roi ystyriaeth benodol i sut y dylid ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyfeirio'r corff hwnnw o waith at Bwyllgor neu fforwm priodol yn unol â hynny.

Atodiad A: Termau ac ymadroddion allweddol

Er y byddwn yn ceisio osgoi jargon yn yr adroddiad hwn lle bynnag y bo modd, mae rhai termau ac ymadroddion sydd ag ystyr benodol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn hefyd yn byrhau rhai teitlau ac enwau swyddogol er mwyn osgoi ailadrodd. Nodir isod ystyrion termau nad ydynt efallai'n amlwg ar unwaith.

Term/ymadrodd	Diffiniad
“yr adroddiadau statudol”	Yr adroddiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chan Archwiliad Cymru a ysgogodd yr ymchwiliad hwn. Cyhoeddwyd y ddau adroddiad ym mis Mai 2020 ac roeddent yn nodi'r gwaith a wnaed gan y ddwy swyddfa yn ystod y tair a phum mlynedd flaenorol yn y drefn honno. Mae rhagor o wybodaeth am yr adroddiadau ar gael yn y Cyflwyniad i'r adroddiad hwn.
“Archwilio Cymru”	Archwilio Cymru yw enw cyfunol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.
“yr Archwilydd Cyffredinol”	Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n archwilio ac yn adrodd ar gyrff cyhoeddus Cymru.
“Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus” neu “Fyrddau”	<p>Byrddau sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr cyrff sector cyhoeddus a grëwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal. Mae aelodau'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ yr awdurdod lleol; ▪ y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal awdurdod lleol; ▪ awdurdod tân ac achub yng Nghymru ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn yr ardal awdurdod lleol; a ▪ Cyfoeth Naturiol Cymru. <p>Roedd y Ddeddf yn sefydlu 22 o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Ers 2015, mae tri phâr o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi uno. Erbyn hyn mae 19 o fyrddau yn cwmpasu Cymru gyfan.</p>
“Comisiynydd Cenedlaethau'r	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.

Dyfodol” neu “y Comisiynydd”	
“corff cyhoeddus” neu “gyrff cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r Ddeddf”	<p>Un o’r 44 o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gweinidogion Cymru, ▪ Awdurdodau Lleol Cymru, ▪ Byrddau Iechyd Cymru, ▪ Iechyd Cyhoeddus Cymru, ▪ Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, ▪ Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, ▪ Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, ▪ Cyfoeth Naturiol Cymru, ▪ Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ▪ Cyngor Celfyddydau Cymru, ▪ Chwaraeon Cymru, ▪ Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac ▪ Amgueddfa Cymru.
“y Ddeddf”	Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.
“nodau llesiant”	<p>Mae saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cymru lewyrchus. ▪ Cymru gydnerth. ▪ Cymru iachach. ▪ Cymru sy’n fwy cyfartal. ▪ Cymru o gymunedau cydlynus. ▪ Chymru â diwylliant bywiog, lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. ▪ Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
“pum ffordd o weithio”	<p>Mae’r Ddeddf yn nodi pum ffordd o weithio a all gefnogi llesiant cenedlaethau’r dyfodol, sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Yr hirdymor: pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. 2. Atal: gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

	<p>3. Integreiddio: ystyried sut y gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'i amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</p> <p>4. Cydweithredu: ystyried sut y gall cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu â gwahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.</p> <p>5. Cynnwys: pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.²¹⁷</p>
<p>“swyddfa'r Comisiynydd” neu “swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol” neu “swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol”</p>	<p>Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru yn darparu staff ac adnoddau ar gyfer gwaith y Comisiynydd ac yn cynghori'r Comisiynydd.</p>
<p>“Swyddfa Archwilio Cymru”</p>	<p>Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ac yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol.</p>

²¹⁷ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, [‘Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau’](#), Tachwedd 2018, tudalennau 6 i 10, cyrchwyd ar 12 Chwefror 2021

Atodiad B: Cyfranwyr i'r ymchwiliad hwn

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefydliadau a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn, p'un ai drwy fynychu ein digwyddiad rhanddeiliaid ar 12 Hydref 2020, cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, neu drwy roi tystiolaeth lafar yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor.

Cyfrannodd cyfanswm o 98 o sefydliadau at yr ymchwiliad hwn.

Mae rhestr lawn o gyfarfodydd y Pwyllgor sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad hwn, gan gynnwys trawsgrifiadau a lincs i'r fideos perthnasol, [ar gael ar dudalen yr ymchwiliad](#).

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld [ar dudalen yr ymgynghoriad](#).

Sefydliad	Mynychu digwyddiad rhanddeiliaid	Cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig	Ymddangos gerbron y Pwyllgor
Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru		✓	
Adfywio Cymru	✓		
Afallen		✓	
Amgueddfa Cymru			✓
Archwilydd Cyffredinol Cymru			✓
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	✓	✓	✓
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri		✓	
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru		✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe	✓	✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent		✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili	✓		
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd		✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot		✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion	✓	✓	✓

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn		✓	✓
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr	✓	✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys			✓
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro		✓	✓
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy		✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin	✓	✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint			✓
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	✓	✓	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	✓	✓	✓
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	✓	✓	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr		✓	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	✓	✓	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	✓		
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	✓	✓	
Cartrefi Cymunedol Cymru	✓		
Chwaraeon Cymru	✓	✓	
Coed Cadw	✓	✓	
Coleg Gwent (Campws Crosskeys)		✓	
Colegau Cymru	✓	✓	
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru		✓	✓
Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd yng Nghymru	✓	✓	✓
Cyddfederasiwn Diwydiannau Coedwig (Confor)	✓		
Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru (Crynwyr)		✓	
Cyfoeth Naturiol Cymru	✓	✓	✓
Cymdeithas Cludiant Cymunedol	✓	✓	
Cymdeithas Conffederasiwn GIG	✓	✓	

Cymorth Cynllunio Cymru	✓		
Cymorth i Ferched Cymru		✓	
Cyngor Abertawe		✓	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	✓		
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	✓		
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy		✓	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen		✓	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam		✓	
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	✓		
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru		✓	
Cyngor Gwynedd		✓	
Cyngor Sir Ceredigion	✓	✓	✓
Cyngor Sir Ddinbych	✓	✓	
Cyngor Sir Gâr		✓	
Cyngor Sir Penfro		✓	
Cyngor Sir Powys	✓	✓	✓
Cyngor Sir y Fflint		✓	✓
Cyngor Sir Ynys Môn		✓	✓
Cyswllt Amgylchedd Cymru	✓		
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru		✓	
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru		✓	
Gofal a Thrwsio Cymru		✓	
Gofal Solfach		✓	
Grŵp Carbon Isel/Di-garbon Cymru	✓		
Grŵp Ymchwil Cyfraith Gyhoeddus Ysgol y Gyfraith Bangor		✓	
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru		✓	
Iechyd Cyhoeddus Cymru	✓	✓	✓
Inspire Training		✓	
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	✓		✓
Llywodraeth Cymru			✓
NSPCC	✓		
Oxfam Cymru	✓	✓	
Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) Cymru	✓		
Race Council Cymru	✓		
Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Newid Sir Benfro		✓	

Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru	✓		
Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion	✓		
Sefydliad Bevan	✓		
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall	✓		
Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol		✓	
Sefydliad Tai Siartredig Cymru	✓		✓
ShareAction		✓	
Sustrans	✓		✓
Trafnidiaeth Cymru		✓	
Triniaeth Deg i Fenywod Cymru		✓	
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru	✓		
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	✓		
Vattenfall Wind Power		✓	
Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	✓		
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol		✓	
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru	✓		
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol		✓	
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru	✓		
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd	✓		
Ymddiriedolaeth Creu Cymunedau		✓	
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	✓		
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	✓	✓	✓